# Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-Eang Map i Gynllunwyr Cwricwlwm Fersiwn i'r Ysgolion Uwchradd yw hwn

Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: **11/2005**

Dyddiad Cyhoeddi: **5 Mai 2005**

**Dogfen Wybodaeth**

**Cwricwlwm a Chymwysterau**



www.dysgu.cymru.gov.uk
www.learning.wales.gov.uk

Adran Hyfforddiant ac Addysg
Department for Training and Education

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

| | |
|---|---|
| **Teitl y ddogfen:** | Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-Eang Map i Gynllunwyr Cwricwlwm Fersiwn i'r Ysgolion Uwchradd yw hwn. |
| **Cynulleidfa:** | Ysgolion Uwchradd a Gynhelir<br>Awdurdodau Addysg Lleol<br>Asiantaethau yn y sector gwirfoddol ac asiantaethau eraill sy'n ymwneud â chefnogi Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn ysgolion uwchradd. |
| **Trosolwg:** | Bydd y cyfarwyddyd hwn yn helpu'r ysgolion uwchradd i gynllunio a datblygu rhaglen Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang, a fydd yn cynnwys gweithgareddau dysgu ar draws cwricwlwm yr ysgol. Bydd hefyd yn ddefnyddiol i asiantaethau sy'n cefnogi Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ysgolion uwchradd a chyrff sy'n gweithio gydag athrawon neu sy'n darparu HMS mewn ysgol neu mewn AALl. |
| **Camau I'w Cymryd:** | Mae angen i benaethiaid ac athrawon pwnc ystyried yr hyn sy'n ofynnol i ddatblygu Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang ar draws y cwricwlwm |
| **Rhagor o Wybodaeth:** | Jane Corbett<br>Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad 1<br>Llywodraeth Cynulliad Cymru<br>Parc Cathays<br>CAERDYDD CF10 3NQ<br>Ffôn: 02920 826020 / 826001<br>Ffacs: 02920 826016<br>E-bost: **jane.corbett@wales.gsi.gov.uk** |
| **Rhagor o gopïau:** | Ar gael oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru yn unol â'r uchod |
| **Dogfennau perthynol:** | Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (a gyhoeddwyd gan ACCAC, DfID, Estyn a Llywodraeth y Cynulliad, 2002) |

ISBN 0 7504 3602 6
G/008/05-06

CMK 22-07-014
Mai

Cysodwyd mewn teip 12pt
© Hawlfraint y Goron 2005

## Cynnwys


Crynodeb .... 1

Rhagymadrodd – Pam Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang? .... 2

Cyfarwyddyd i Bwy yw Hwn? .... 3

Sut i Ddefnyddio'r Map Cwricwlwm .... 4

Bodloni Anghenion Ychwanegol .... 6

Beth yw Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang? .... 8

Cysylltiadau ag Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy ac Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol .... 9

Tudalennu'r Pynciau

- Celf .... 11
- Dylunio a Thechnoleg .... 14
- Saesneg .... 18
- Daeryddiaeth .... 22
- Hanes .... 25
- Technoleg Gwybodaeth .... 30
- Mathemateg .... 34
- Ieithoedd Tramor Modern .... 37
- Cerddoriaeth .... 41
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol .... 45
- Addysg Gorfforol .... 50
- Addysg Grefyddol .... 54
- Gwyddoniath .... 59
- Cymraeg (Iaith Gyntaf) .... 63
- Cymraeg (Ail Iaith) .... 68

Cyrsiau a Chymwysterau Eraill .... 72

Cael Cymorth – Rhaglen Hwyluso Cymorth Effeithiol .... 75

Cydnabyddiaeth .... 76

## Crynodeb

MAP CWRICWLWM UWCHRADD DINASYDDIAETH FYD-EANG

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gwahodd sylwadau golygyddol ar ddogfen ddrafft sy'n ceisio helpu ysgolion uwchradd i gynllunio ac i ddatblygu rhaglen Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang, yn cwmpasu gweithgareddau dysgu ar draws cwricwlwm yr ysgol. Bydd o ddefnydd hefyd i asiantaethau sy'n cefnogi Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn ysgolion uwchradd a sefydliadau sy'n gweithio gydag athrawon neu sy'n darparu HMS o fewn ysgol neu AALl.

Mae'r ddogfen yn edrych ar holl brif feysydd y cwricwlwm ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac ystod o gyrsiau y mae disgyblion yn eu dilyn ar lefel Cyfnod Allweddol 4 ac ôl-16.

Yn ogystal, mae'r ddogfen hon yn cynnig ffyrdd y gall cwricwlwm yr ysgol gael ei gysylltu ag Addysg dros Ddatblygu Cynaliadwy ac Addysg dros Gydraddoldeb Hiliol.

Daw cyfnod ymgynghori'r ddogfen hon i ben ar 10 Rhagfyr 2004. Dylid anfon ymatebion at:

Jane Corbett
Yr Is-adran Safonau a Pherfformiad 1
Yr Adran Hyfforddiant ac Addysg
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
Ffôn : 029 20826001
Ffacs: 029 20826016
e-bost: jane.corbett@wales.gsi.gov.uk

## Rhagymadrodd - Pam Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang?

Ar ddechrau'r unfed ganrif ar hugain, mae sawl cwestiwn/mater hollbwysig yn wynebu pobl ym mhob cymdeithas ledled y byd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- sut i gadw a gwarchod yr amgylchedd, lleihau llygredd a rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy
- sut i leihau'r anghydraddoldebau sy'n bodoli rhwng gwahanol bobloedd ym mhob rhan o'r byd a diogelu eu hawliau dynol
- sut i feithrin cymunedau heddychlon a chytûn drwy hybu dealltwriaeth rhwng pobl sy'n wahanol i'w gilydd

Mae'r cwestiynau/materion hyn yn ymwneud â'r blaned yr ydym yn byw arni a'r bobl yr ydym yn byw gyda nhw. Maen nhw'n effeithio ar bawb yn y byd mawr crwn. Maen nhw'n gwestiynau 'byd-eang'.

Mae'r map cwricwlwm hwn yn anelu at ddangos i athrawon sut mae dechrau edrych ar rai o'r materion hyn yng nghwricwlwm yr ysgol uwchradd drwy Ddinasyddiaeth Fyd-eang.

Drwy Ddinasyddiaeth Fyd-eang, mae'r ysgolion hefyd yn cyflwyno'r disgyblion i gysyniadau allweddol Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy. Mae cysyniadau fel cyd-ddibyniaeth, newid cynaliadwy, ansawdd bywyd ac amrywiaeth yn hoelio sylw'r disgyblion yn benodol ar gwestiynau allweddol sy'n ymwneud â sut maen nhw'n byw, gan eu cyflwyno i'r cyfrifoldeb dros weithredu o blaid ffyrdd cynaliadwy o fyw a chan roi grym iddyn nhw ar ffurf agweddau sy'n eu gwneud yn ddinasyddion cynaliadwy mewn byd byd-eang.

Mae rhoi sylw i bynciau drwy Ddinasyddiaeth Fyd-eang yn gallu helpu ysgol i fodloni rhai o'r gofynion cyfreithiol sydd arni i hybu Cydraddoldeb Hiliol drwy roi cyfle i'r disgyblion herio anghyfiawnder hiliaeth, gwerthfawrogi amrywiaeth diwylliannol a meithrin agweddau ac ymddygiad cadarnhaol at bobl sy'n wahanol iddyn nhw eu hunain.

Nid yw Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn bwnc ychwanegol i'r disgyblion ei astudio. Mae'n **ffordd i athrawon a disgyblion ymdrin â'r cwricwlwm ysgol sydd eisoes yn bodoli ac agweddau eraill ar fywyd ysgol**.

## Cyfarwyddyd i Bwy yw Hwn?

Mae'r cyfarwyddyd hwn yn fap o gyfleoedd ar draws y cwricwlwm i'r ysgolion uwchradd yng Nghymru gynnig Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang i'w disgyblion. Bydd yn helpu'r ysgolion i ystyried sut mae gwahanol feysydd yn y cwricwlwm yn gwneud cyfraniadau neilltuol at raglen Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ysgol. Mae'r cyfarwyddyd yn edrych ar yr holl brif feysydd cwricwlaidd ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac amrywiaeth o'r cyrsiau y bydd disgyblion yn eu dilyn yng Nghyfnod Allweddol 4 ac ar ôl 16 oed.

Gall **adrannau pwnc** ysgol uwchradd ddefnyddio'r cyfarwyddyd:

- i ystyried cyfraniad eu pwnc at Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang;
- i enwi pynciau a gweithgareddau y maen nhw'n eu defnyddio gyda'r disgyblion yn barod;
- i gydnabod cyfleoedd i arddel dimensiwn byd-eang cryfach yn eu harferion presennol; ac
- i ystyried sut mae cyfraniad eu pwnc at Ddinasyddiaeth Fyd-eang yn perthyn i'r hyn y mae'r disgyblion yn ei ddysgu yn y pynciau eraill.

Gall **arweinwyr ysgolion, rheolwyr cwricwlwm** a **chydlynwyr Dinasyddiaeth Fyd-eang** yn yr ysgol ddefnyddio'r cyfarwyddyd hwn:

- i nodi cyfleoedd i bynciau gwahanol gyfrannu ar ddarpariaeth yn ysgol mewn Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang;
- i gefnogi archwiliad o waith presennol Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ysgol; ac
- i gynllunio a datblygu rhaglen ysgol-gyfan o Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Gall **Awdurdodau Addysg Lleol** ac **asiantaethau sy'n cefnogi Dinasyddiaeth Fyd-eang** yn yr ysgolion uwchradd ddefnyddio'r cyfarwyddyd hwn:

- i gynllunio a chyflwyno cymorth i'r ysgolion sy'n briodol ar gyfer y cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan gwricwlwm ysgolion Cymru.

## Sut i ddefnyddio'r map cwricwlwm

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae'r datganiadau hyn yn ceisio nodi'r Cysyniadau Allweddol y mae'r pwnc yn arbennig o abl i gyfrannu atynt a nodi sut (yn nhermau gwybodaeth, medrau ac weithiau gwerthoedd) mae'r pwnc yn cyfrannu at Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn ei chyfanrwydd.

### Defnyddio'r cynnwys / defnyddio gweithgareddau dosbarth

Mae'r blychau hyn yn cynnig datganiadau 'generig' am y mathau o ddysgu yn y pwnc ac am sut y gall y rhain gael eu defnyddio i gyfrannu at Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang. Ran amlaf, mae'r iaith sy'n cael ei defnyddio yn perthyn yn agos i iaith y Rhaglenni Astudio a'r manylebau arholiadau.

### Cwricwlwm a Chymwysterau: Lleoli ADF

Mae'r blychau hyn yn tanlinellu agweddau mwyaf perthnasol y Rhaglenni Astudio a rhai enghreifftiau o fanylebau arholiadau ynghyd â rhai enghreifftiau (mewn print italig fel arfer). Ar gyfer Cyfnod Allweddol 3 ac ar gyfer Cymraeg, Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4, mae'r enghreifftiau wedi'u seilio ar y Rhaglenni Astudio ac ar gyfer ABCh maent wedi'u seilio ar y fframweithiau. Ar gyfer Addysg Grefyddol, maent wedi'u seilio ar Ganllawiau ACCAC ar gyfer 2001.

Ar gyfer astudiaethau TGAU a Safon Uwch, defnyddir enghreifftiau i ddarlunio sut y gall y manylebau gyfeirio at ddinasyddiaeth fyd-eang yn bendant neu gynnig cyfleoedd ymhlyg i ddatblygu addysg dinasyddiaeth fyd-eang. Ar gyfer dinasyddiaeth fyd-eang, mae'r enghreifftiau wedi'u tynnu o waith y gwahanol Gyrff Dyfarnu ac nid ydynt yn gyfystyr ag argymhelliad o blaid unrhyw fanyleb benodol. Er hynny, yn yr adran 'Cymwysterau eraill', mae gwybodaeth benodol yn cael ei rhoi am Fagloriaeth Cymru ac arholiad UG Datblygu'r Byd, am fod y ddau gymhwyster hyn yn unigryw i Gymru a'u bod yn cynnig cyfleoedd pendant i addysgu Cymru yng nghyd-destun y Byd.

### Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd

Syniadau am wersi yw'r rhain, i roi syniad mwy pendant o'r hyn y gallai Dinasyddiaeth Fyd-eang ei olygu yn y pwnc. Ni all y cyfarwyddyd fynegi pob un ffordd y gall pwnc gyfrannu at Ddinasyddiaeth Fyd-eang. Bwriad y 'Synaidau i'ch rhoi ar ben y ffordd…' yw eich symbylu ar y dechrau: dyna i gyd. Bydd athrawon creadigol yn gallu meddwl am ffyrdd gwell a mwy o ffyrdd o ymgorffori Dinasyddiaeth Fyd-eang yn eu gwersi.

### Cysylltiadau Trawsgwricwlaidd

Byddai'n hawdd addasu llawer o'r 'syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…' i'w defnyddio mewn gwahanol bynciau neu gyd-destunau neu i ddatblygu medrau ar draws y cwricwlwm.

**Yr Angen i fod yn Sensitif**

Ni ddylai athrawon ymatal rhag dangos delweddau a chodi materion sy'n sensitif neu'n ddadleuol, ond fe ddylen nhw sicrhau bod gan y disgyblion gyfle i weithio gyda delweddau cadarnhaol hefyd. Dylai'r disgyblion ddefnyddio amrediad o adnoddau a dylent allu adnabod ac enwi'r hyn sy'n ddiddorol mewn diwylliannau eraill, arferion cenedlaethol etc. Dylai'r athrawon sicrhau bod y disgyblion:

- yn cael gweld gwybodaeth gytbwys
- yn cael eu hannog i gloriannu safbwyntiau a sylwadau amrywiol a gwahanol
- yn adnabod y gwahaniaeth rhwng ffaith a barn
- yn gwybod sut i ymdrin â gogwydd a stereoteipiau

Dylai'r athrawon sicrhau nad yw disgyblon yn y dosbarth/ysgol yn cael eu datgelu mewn Dinasyddiaeth Fyd-eang i sefyllfaoedd anffafriol neu i wahaniaethu oherwydd eu cenedl, eu crefydd, eu statws cymdeithasol neu wleidyddol neu unrhyw ffactor arall.

## Bodloni Anghenion Ychwanegol

Bydd y 'Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd …' a Rhaglenni Astudio'r Cwricwlwm Cenedlaethol y cyfeiriwyd atynt yn briodol yn fras i'r mwyafrif o ddisgyblion yn CA 3 a 4, ond i rai disgyblion sydd ag anghenion ychwanegol fe fyddai angen addasu'r rhaglen addysgu a'r ymagweddau er mwyn cyflwyno dinasyddiaeth fyd-eang.

### Gwahaniaethu

I rai disgyblion ag anawsterau neu anableddau dysgu, gall fod angen gwahaniaethu gweithgareddau yn un neu fwy o'r ffyrdd canlynol:

- defnyddio mwy o ymagweddau gweithgar neu aml-synnwyr i ddarparu ar gyfer arddulliau dysgu gwahanol
- defnyddio amrediad o ddulliau trefnu er mwyn cynnig cymorth cyfoedion/cymorth grŵp
- cyflwyni'r cynnwys mewn ffyrdd gwahanol e.e. drwy TGCh, fideo, chwarae rôl, defnyddio lluniau/symbolau i gyfleu testun, adnoddau "ymarferol", ymweliadau etc
- defnyddio iaith glir (ar lafar/mewn ysgrifen) ac esbonio'r eirfa allweddol
- darparu cefnogaeth/cynorthwyon e.e. TGCh, darllenydd, ysgrifennydd
- gweithio yn fwy araf
- gosod tasgau pendant sy'n caniatáu i'r dysgwyr ymateb mewn ffyrdd gwahanol
- monitro gofalus a rhoi adborth cadarnhaol yn barhaus i'r dysgwyr

### Addasu ymhellach

Yn achos disgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth, sy'n gweithio y tu allan i'r amrediad a ddisgwylid yn y Cyfnod Allweddol, gall gwybodaeth, dealltwriaeth a medrau gael eu dewis o Raglenni Astudio'r Cyfnodau Allweddol cynharach. I ystyried pa ddysgu sy'n briodol i'r grŵp hwn o ddisgyblion, bydd angen mynd yn ôl at nodau ac egwyddorion sylfaenol y pwnc.

Bydd angen dechrau dysgu gyda'r cyfarwydd (cartref/ysgol) ac ymestyn o dipyn i beth i'r gymuned agos. Bydd y maes gwaith hwn yn cynnig cyfleoedd hefyd i ddisgyblion sydd ag anghenion mwy cymhleth weithio ar eu blaenoriaethau unigol megis cyfathrebu ac ABCh yng nghyd-destun amrywiaeth o brofiadau diddorol. Fe allai fod yn ddefnyddiol cyfeirio at y canllawiau ychwanegol ar ABCh (yn enwedig felly yr agweddau cymunedol ac amgylcheddol) a gynhyrchwyd gan ACCAC (2004) sydd ar gael ar wefan ACCAC.

**Cymwysterau**

I ddysgwyr sy’n gweithio ar lefelau 1, 2 neu 3 y Cwricwlwm Cenedlaethol yn CA4, mae amrywiaeth o gymwysterau ar gael ar lefel Mynediad. Mae llawer o’r rhain yn defnyddio cynnwys Rhaglenni Astudio CA4 yn yr un ffordd â TGAU ac felly bydd llawer o’r wybodaeth a roddir am TGAU ym mhob un o bynciau’r Cwricwlwm Cenedlaethol yn dal yn berthnasol. Hefyd, ceir cymwysterau penodol ar Lefel Mynediad (EL) sy’n canolbwyntio ar ddinasyddiaeth a medrau personol a chymdeithasol a medrau bywyd, ac sy’n cynnwys agweddau ar ddinasyddiaeth fyd-eang, e.e. Tystysgrif Lefel Mynediad yr OCR mewn Astudiaethau Dinasyddiaeth (Mynediad 3), Tystysgrif Lefel Mynediad mewn Medrau Bywyd (ABC, ASDAN, Edescel, CBAC), Tystysgrif Lefel Mynediad CBAC mewn Medrau Personol a Chymdeithasol, Tystysgrif Lefel Mynediad yr AQA mewn ABCh.

## Beth yw Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang?

Mae cyfarwyddyd ACCAC / DfID / Estyn / Llywodraeth Cynulliad Cymru, Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (a gyhoeddwyd yn 2002) yn diffinio Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang fel a ganlyn:

| **Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang:** |
|---|
| Mae'n galluogi pobl i ddeall y grymoedd byd-eang sy'n llunio eu bywydau a chael y wybodaeth, sgiliau a'r gwerthoedd a fydd yn eu galluogi i gymryd rhan wrth wneud penderfyniadau, yn lleol ac yn fyd-eang, sy'n hyrwyddo byd mwy cyfiawn a chynaliadwy. |

Mae dau brif beth i'w nodi ynglŷn â'r diffiniad hwn:

- Am ei fod yn ffordd o ymdrin â'r cwricwlwm sydd eisoes yn bod, nid yw Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn bwnc ychwanegol ar wahân i'r ysgolion ymdrin ag ef.
- Mae Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang yn golygu mwy na dim ond dysgu am rannau eraill o'r byd. Mae'n ymwneud â dysgu sut i ddeall ac ymateb i rymoedd byd-eang (cymdeithasol, diwylliannol, economaidd, amgylcheddol, gwleidyddol).

### Y Cysyniadau Allweddol

Ceir **9 Cysyniad Allweddol** ar gyfer Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang:

- Cyd-ddibyniaeth
- Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth
- Anghenion a Hawliau
- Amrywiaeth
- Newid Cynaliadwy
- Ansawdd Bywyd
- Ansicrwydd a Rhagofalon
- Gwerthoedd a Chanfyddiadau
- Datrys Anghydfodau

Gallwch edrych ar y Cysyniadau Allweddol hyn mewn ffyrdd gwahanol ac o safbwyntiau gwahanol. Mae'r canllawiau hyn yn edrych arnynt drwy Ddinasyddiaeth Fyd-eang. Dylai rhaglen o Ddinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ysgol gynnig cyfleoedd i'r disgyblion ymwneud â'r Cysyniadau Allweddol hyn mewn pynciau gwahanol ar draws y cwricwlwm.

## Cysylltiadau ag 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' ac 'Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol'[1]

Mae cysylltiad agos rhwng Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang a dau faes arall y mae'r ysgolion wrthi'n ceisio'u datblygu ar hyn o bryd: 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' ac 'Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol'.

Gall rhai gweithgareddau Dinasyddiaeth Fyd-eang yn yr ysgol gyfrannu ar yr un pryd at un o'r meysydd hyn neu'r ddau. Gall gweithgareddau eraill ac elfennau ar gynnwys y pynciau fod yn addas yn fwy penodol ar gyfer 'Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy' neu 'Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol'.

Mae **Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy** yn galluogi pobl i feithrin yr wybodaeth, y gwerthoedd a'r medrau i gymryd rhan mewn penderfyniadau am y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yn unigol ac ar y cyd, yn lleol ac yn fyd-eang, a fydd yn gwella ansawdd bywyd nawr heb niweidio'r blaned yn y dyfodol**.**

Byddai Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy yn pwysleisio'r cydberthnasoedd rhwng y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd. Byddai'n sicrhau bod sylw yn cael ei roi i ddatblygu nid yn unig yr wybodaeth sy'n gynhenid yn y meysydd hyn, ond hefyd y medrau a'r agweddau y mae eu hangen er mwyn i'r myfyrwyr allu deall materion a chymryd camau priodol. Byddai addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ymdrin â goblygiadau lleol a byd-eang popeth yr ydym yn ei wneud a'r camau y gall unigolion a chyrff eu cymryd mewn ymateb i'r materion hynny.

Mae addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy yn ymwneud â'r canlynol:

- Cydadwaith a chyd-ddibyniaeth y gymdeithas, yr economi a'r amgylchedd
- Anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol
- Goblygiadau lleol a byd-eang dewisiadau ffordd o fyw

Mae **Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol** yn galluogi pobl i werthfawrogi a dathlu amrywiaeth y ddynolryw, yn y DU a ledled y byd, ac i feithrin yr wybodaeth, y gwerthoedd a'r medrau i herio gwahaniaethu hiliol, i hybu cydraddoldeb ac i hybu cysylltiadau da rhwng pobl o grwpiau hiliol gwahanol.

Byddai Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol yn pwysleisio cydraddoldeb cynhenid pobl o bob cefndir hiliol ac ethnig. Byddai'n sicrhau bod unrhyw wybodaeth neu ddelweddau negyddol a ddefnyddid yn cael eu cydbwyso â phortreadau cadarnhaol er mwyn lleihau unrhyw risg o atgyfnerthu golwg negyddol, nawddoglyd neu stereopteipaidd ar bobl benodol, eu gwlad, eu diwylliant neu eu ffydd. Byddai

[1] Mae'n bwysig nodi nad yw ymgymryd â gweithgareddau Dinasyddiaeth fyd-eang yn galluogi ysgol i ddatblygu dealltwriaeth ddofn o ddatblygu cynaliadwy nac i fodloni ei rhwymedigaethau cyfreithiol i hybu Cydraddoldeb Hiliol.

pwyslais yn cael ei roi hefyd ar natur aml-ethnig Cymru, a lle bynnag y byddai modd, byddai pobl o gefndir ethnig lleiafrifol yn cael eu cydnabod a'u cynnwys mewn gwaith ar faterion byd-eang. Byddai Addysg ar gyfer Cydraddoldeb Hiliol bob amser yn sicrhau bod y cwestiynau canlynol yn cael eu hystyried:

- Pa effaith y gallai'r gweithgaredd hwn ei chael ar ddisgyblion yn y dosbarth sydd o gefndir ethnig neu genedlaethol tebyg i'r un sy'n cael ei astudio?
- Pa effaith y gallai'r gweithgaredd hwn ei chael ar syniadau pob disgybl am y bobl neu'r wlad sy'n cael eu hastudio?

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… CELF

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae astudio celf yn rhoi cyfleoedd i'r disgyblion ddefnyddio gwahanol gyfryngau, offer a chyfarpar i archwilio a gwneud gwahanol ddelweddau, gwrthrychau ac arteffactau, ac i ddeall pwysigrwydd ac amrywiaeth gwahanol gyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol.

Mae'r disgyblion yn ennill medrau a dealltwriaeth o werthoedd sy'n berthnasol i **Gysyniadau Allweddol Cyd-ddibyniaeth**, **Amrywiaeth** a **Gwerthoedd a Chanfyddiadau.**

**Gwybodaeth:** ymwybyddiaeth o dreftadaeth ddiwylliannol, gwahanaiethau diwylliannol, hoffter personol a chyd-destun cymdeithasol, hanesyddol

**Gwerthoedd:** cydnabod gwerthoedd pobl eraill a'u 'ffyrdd o weld', gan barchu amrywiaeth

**Medrau:** y gallu i wneud cysylltiadau rhwng eu gwaith nhw a gwaith pobl eraill a deall sut mae celf yn effeithio ac yn dylanwadu ar fywydau pobl

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn celf mae'r disgyblion yn dysgu:

**Defnyddio a gweithio gyda gwahanol ddefnyddiau ac adnoddau.** Gall hyn gynnwys ystod eang o ddefnyddiau sy'n cael eu defnyddio mewn gwahanol ddiwylliannau a gwahanol rannau o'r byd.

**Adnabod a gwerthfawrogi gwahanol gyd-destunau.** Dylai hyn gynnwys deall sut mae cyd-destun yn dylanwadu ac yn siapio gweithiau celf, gan ddatblygu meddwl beirniadol yn ogystal â meddwl creadigol.

**Gwneud cysylltiadau rhwng eu gwaith eu hunain a gwaith pobl eraill**. Mae'r disgyblion yn ymchwilio i agweddau gwahanol ar gelf gan roi cyfle iddynt ystyried gwahanol hunaniaethau diwylliannol, canfyddiadau esthetig, a phwysigrwydd hunan-fynegiant

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Gall celf gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Mynychu arddangosfeydd neu sioeau gan artistiaid rhyngwladol a/neu uniaethu â materion byd-eang.** Gall arddangosfeydd ehangu gwybodaeth y disgyblion o amrywiaeth celf a'u helpu i ddeall cyd-destun y gwaith. Gall gwaith celf 'byd-eang' yn benodol eu symbylu i ymchwilio i sut mae symbolau, delweddau a gwrthrychau'n cael eu defnyddio i gyfleu ystyr a hunaniaeth e.e. yng ngwaith celf Amser Breuddwyd Cynfrodorion Awstralia, yantras Hindŵaidd neu'r Mala Heddwch.

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU CELF: LLEOLI ADF**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol i'r disgyblion gael:<br>'cyfleoedd i werthuso ac ymateb … i ddulliau a syniadau pobl eraill, … o amrywiaeth o ddiwylliannau a chyd-destunau cyfoes a hanesyddol'<br>Mae'r adran **'Deall'** yn dweud y dylid:<br>'rhoi cyfleoedd i'r disgyblion archwilio'r gwahanol ffyrdd o weithio sydd gan artistiaid, crefftwyr a dylunwyr o wahanol ddiwylliannau a gwahanol gyfnodau' |
| **TGAU** | **Manyleb Enghreifftiol – TGAU Celf a Dylunio OCR**<br>• Gellir sicrhau bod pob un o'r chwe maes astudio yn berthnasol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang naill ai drwy'r topig a ddewisir neu drwy'r defnyddiau/adnoddau a ddefnyddir wrth wireddu'r project(au).<br>• Nodau'r Fanyleb:<br>- datblygu dealltwriaeth o godau a chonfensiynau ac ymwybyddiaeth o gyd-destun<br>- datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth o gelf, crefft a dylunio mewn cymdeithasau cyfoes ac mewn amserau a diwylliannau eraill<br>• Yn ystod eu hastudiaethau mae'r ymgeiswyr yn gallu cwestiynu ac archwilio agweddau ar ddynoliaeth â'u cyplysu â'r byd go iawn o'u cwmpas. |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol – Celf Safon Uwch OCR**<br>• Nodau'r Fanyleb:<br>- datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o rôl a chyraeddiadau artistiaid, crefftwyr a dylunwyr yn y gorffennol ac yn y gymdeithas gyfoes<br>• Mae cysylltiad canolog rhwng pryderon ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol mewn celf:<br>- y cyfle i ymchwilio i faterion a godir gan ddiwylliannau a chrefyddau gwahanol, e.e. eiconograffiaeth grefyddol<br>- cyfle i ymdrin â sut mae gwahanol artistiaid wedi'u gweld eu hunain fel rhan o'r cyflwr dynol<br>- adnabod y gwerthoedd a'r credoau sydd wedi'u harddel ar wahanol adegau<br>• mae'r fanyleb yn gofyn bod yr ymgeiswyr yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth ymarferol a damcaniaethol o sut mae delweddau ac arteffactau'n gysylltiedig â'r amser a'r fan lle cawsant eu gwneud a'u cyd-destunau cymdeithasol a diwylliannol. |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### 'Diwylliant a Gwisgoedd' (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol: Amrywiaeth, Gwerthoedd a Chanfyddiadau

- Gofynnwch i'r disgyblion ddylunio gwisg seremonïol gyfoes drwy ymchwilio i symbolau, lliwiau a phatrymau sy'n cael eu defnyddio yng ngwahanol grefyddau'r byd. Darparwch ystod o ddyluniadau enghreifftiol, cyfoes a hanesyddol, o wahanol ddiwylliannau a gwledydd er mwyn ysbrydoli a chefnogi syniadau dylunio'r disgyblion.
- Holwch y disgyblion am eu dealltwriaeth bresennol o sut mae symbolau, lliwiau a phatrymau'n cael eu defnyddio yng ngwahanol grefyddau'r byd neu ganddyn nhw.
- Cydweithiwch â chydweithwyr mewn Addysg Grefyddol i sicrhau bod y ffynonellau'n briodol. Heriwch y disgyblion i gynhyrchu dyluniad neu gyfres o ddyluniadau sydd yr un mor neilltuol, sy'n briodol i'w defnyddio yn y byd cyfoes ac sydd yn y bôn yn secwlar o ran eu natur

### Celf o Sbarion Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddibyniaeth, Newid Cynaliadwy

Heriwch y disgyblion i greu darn o gelf drwy ddefnyddio defnyddiau gwastraff a sbarion. Yn ogystal â sicrhau bod y disgyblion yn cynhyrchu gwaith o ansawdd uchel, defnyddiwch y project hwn i'w hysgogi i fyfyrio ar y detholiad diddiwedd bron o ddefnyddiau ac adnoddau sydd ar gael a sut mae trin a thrawsffurfio defnyddiau'n dangos medrusrwydd artistiaid e.e. gallai ffocws y project ar ddefnyddiau sy'n cael eu gweld gan y gymdeithas fel rhai diwerth ac yn barod i'w taflu ysbyrydoli'r disgyblion i ymchwilio i syniadau Dinasyddiaeth Fyd-eang yn y celf y maent yn ei chreu.

### 'Rhyddid mynegiant a chelf' (Safon Uwch)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Anghenion a Hawliau

Gosodwch ddarn o waith cwrs i'r myfyrwyr sy'n golygu ymchwilio i sut mae artistiaid mewn gwledydd gwahanol wedi lleoli cynnwys ac arddull eu gwaith mewn perthynas â'u cyd-destun gwleidyddol, e.e.:*Celf yn yr Almaen o dan y Natsïaid*: Mynegiadaeth, Dadayddiaeth a Swrealaeth a chelf a bywyd Paul Klee, Mark Chagall neu Wassily Kandinsky a erlidiwyd gan lywodraeth Hitler. *Celf yn Rwsia'r 20fed Ganrif*: Realaeth Sosialaidd a'i heffaith ar rôl celf a chrefft yn y gymdeithas; artistiaid yn creu yn unol ag athroniaeth wleidyddol ac ideolegol y wladwriaeth. Gall y myfyrwyr edrych ar waith Vera Mukhina neu Piotr Belousov, neu ddetholiad o bosteri gwleidyddol y cyfnod, a'u cymharu â chelf wleidyddol gwledydd heddiw. Beth yw'r moddau mynegiant, y technegau? Ydyn nhw'n debyg neu'n wahanol iawn?

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn….
## DYLUNIO A THECHNOLEG

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae astudio Dylunio a Thechnoleg yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddylunio a gwneud cynhyrchion ac ystyried sut mae cynhyrchion yn hwyluso bywydau pobl, ac ystyried ar yr un pryd sut gall defnyddiau gael eu defnyddio i leihau difrod i'r amgylchedd a phwysigrwydd materion ailddefnyddio ac ailgylchu.

Mae'r disgyblion yn ennill gwybodaeth a medrau sy'n berthnasol i **Gysyniadau Allweddol Anghenion a Hawliau**, **Ansawdd Bywyd** a **Newid Cynaliadwy**.

**Gwybodaeth:** deall sut mae dyluniadau a datblygiadau technolegol yn gallu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ond cynnwys gwendidau neu beryglon

**Gwerthoedd:** deall effaith cynhyrchion y tu hwnt i'r diben y cawsant eu dylunio ar eu cyfer gan gynnwys materion amgylcheddol.

**Medrau:** gwybod sut i ddylunio a chynhyrchu cynhyrchion o wahanol ddefnyddiau a chan ddefnyddio gwahanol dechnegau.

**Defnyddio cynnwys y pwnc**

Mewn dylunio a thechnoleg mae'r disgyblion yn dysgu:

**Ymchwilio a chloriannu** cynhyrchion cyfarwydd er mwyn deall sut mae defnyddiau a chydrannau'n cael eu defnyddio ac i ddod o hyd i'r egwyddorion technolegol isorweddol y mae'r cynhyrchion wedi'u datblygu yn unol â nhw.

**Datblygu medrau ymarferol** drwy dasgau penodol

**Dylunio a Gwneud cynhyrchion** o amrediad o ddefnyddiau gan gynnwys; bwyd, metel, plastigau**,** coed, tecstilau a chynnwys systemau rheoli trydanol a mecanyddol. Bydd hyn yn ystyried agweddau hanesyddol ar ddylunio a thechnoleg ac arferion modern.

**Ystyried ffactorau moesol, moesegol, cymdeithasol ac amgylcheddol wrth ddylunio cynhyrchion.**

**Defnyddio gweithgareddau dosbarth**

Gall dylunio a thechnoleg gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Ymchwilio** i ffynonellau ynni cynaliadwy amgen (gwynt, tonnau, haul, bio) ac ystyried canlyniadau defnyddio defnyddiau a chydrannau nad oes modd eu hailgylchu ar gyfer yr amgylchedd, pobl a'u hansawdd bywyd.

**Datblygu** technegau crefftwaith megis cerfio, gwaith metel, enamlo, brodwaith, chikan etc. o India; technegau sy'n cael eu defnyddio yn nhecstilau Cynfrodorion Awstralia ac Ynysoedd Torres Strait: llifo drwy wrthsefyll (Batik); peintio â llaw gan ddefnyddio brigau fel brwsys, gwellt i chwythu paent, neu ddail, hadau etc. fel printiadau

**Gwneud** model: tyrbinau gwynt, systemau pwmpio syml ar gyfer dŵr glân, strwythurau ynni-isel cynaliadwy i gael cysgod a thai; amrywiol seigiau bwyd, dillad, ffasiwn ac addurniadau i'r corff o amrywiol ddiwylliannau.
**Gwneud gwerthfarnau** am: costau

| | |
|---|---|
| | economaidd (cymharu prisiau cynhyrchion); dewisiadau a hoffterau defnyddwyr (traddodiad, argaeledd, cyfyngiadau diwylliannol). |

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU DYLUNIO A THECHNOLEG: LLEOLI ADF**

**Cyfnod Allweddol 3**

Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu'r disgyblion

- i ddylunio a gwneud cynhyrchion, gan weithio ag ystod eang o offer, defnyddiau a chydrannau, e.e. gall y disgyblion ddefnyddio offer a defnyddiau sy'n boblogaidd mewn diwylliannau eraill: papur Xuan/Sidan - defnyddiau traddodiadol at beintio yn Tsieina; neu ddefnyddio defnydd o India fel 'himrŵ' a 'mashrŵ' at eu dyluniadau
- i gael cyfleoedd i ddatblygu eu gallu mewn dylunio a thechnoleg drwy dasgau lle maen nhw'n dylunio ac yn gwneud cynhyrchion, gan ganolbwyntio ar wahanol gyd-destunau a defnyddiau, e.e. dylunio a gwneud model o gatamarán hwylio o ynysoedd môr y de, dylunio a choginio pryd halal / kosher / llysieuol o India
- i ddatblygu, fel medr dylunio, gynnig manwl ar ôl ystyried estheteg, swyddogaeth, diogelwch, dibynadwyedd, priodweddau'r defnyddiau a'r cydrannau a'u cost, e.e. dylunio ateg i help i gario llond piser o ddŵr ar y pen

**TGAU**

**Manyleb Enghreifftiol (2005) – TGAU Dylunio a Thechnoleg CBAC**

"Dylid rhoi cyfle iddynt brofi'r amryfal rolau sy'n gysylltiedig â dylunio a thechnoleg: cleient, dylunydd, gwneuthurwr, rheolwr, defnyddiwr ac ati. Dylid annog yr ymgeiswyr i ystyried y berthynas rhwng technoleg a chymdeithas."

<u>Technoleg Bwyd:</u>

Ystyried sut mae'r canlynol yn effeithio ar ddyluniad cynhyrchion:

Ffactorau diwylliannol ac ethnig sy'n gysylltiedig â dewis bwyd ac argaeledd bwyd; cynnyrch organig, lles anifeiliaid, ailgylchu; defnyddio plaleiddiaid, defnyddio gwrthfiotigau, hybwyr twf, BSE.

<u>Technoleg Ddiwydiannol:</u>

Ystyried anghenion a gwerthoedd ystod o ddefnyddwyr.

Gwneud ymchwil farchnata; darganfod anghenion corfforol,

teimladol, deallusol a chymdeithasegol grŵp targed penodol y bwriedir y cynnyrch ar ei gyfer; defnyddio'r wybodaeth mewn cynigion dylunio.

<u>Technoleg Tecstilau:</u>

| | |
|---|---|
| | Ystyried dylanwadau cymdeithasol a diwylliannol ar ddylunwaith cynhyrchion:<br><br>Crewyr delweddau; arweinwyr ffasiwn; ffasiwn gyfoes; dylanwadau hanesyddol; traddodiadau diwylliannau eraill.<br><br>Ystyried materion moesol:<br><br>Defnyddio prosesau a chemegau gwenwynig/niweidiol wrth gynhyrchu a gweithgynhyrchu; arddull gwisgoedd at achlysuron penodol. |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2005) –Safon Uwch CBAC mewn Dylunio a Thechnoleg**<br><br>“Gall gwaith project a’r astudiaeth achos ymestyn dealltwriaeth o’r materion hyn (materion ysbrydol, moesol, moesegol, cymdeithasol a diwylliannol) er mwyn hybu gwerthfawrogiad cytbwys o’r gwrthdrawiadau a’r penblethau a geir wrth ddylunio a gweithgynhyrchu cynhyrchion neu systemau.”<br><br><u>Dylunio Cynhyrchion</u><br><br>Ar gyfer arloesi yn y farchnad, mae angen dealltwriaeth o anghenion a galwadau cwsmeriaid, gwthiad y dechnoleg a thyniad y farchnad |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Ryseitiau a thechnegau o gwmpas y byd (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd, Amrywiaeth

Rhowch gyfle i'r disgyblion baratoi prydau traddodiadol a chyfoes o ranbarthau a diwylliannau eraill. Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn ystyried chwaeth a gwerthoedd maethiadol ac, os yw'n bosibl, cysylltwch waith bwyd ymarferol y disgyblion â chysylltiadau rhyngwladol ag ysgolion, ffrindiau gohebol o wledydd eraill, y rhyngrwyd etc. Ochr yn ochr â seigiau safonol o India a Tsieina, gallai'r disgyblion roi cynnig ar seigiau eraill megis rhai o Affrica: Oluwombo, Matoke, Muamba Nsusu (Cawl Cyw Iâr o'r Congo), Tukpa o Tibet, neu ryseitiau Romani (Sipsiwn): Galúshki neu Bokeli. Gallai estyniadau ar y tasgau ymarferol hyn gynnwys dysgu am dechnegau coginio traddodiadol Cynfrodorion Awstralia (e.e. rhostio ar gols poeth, pobi mewn lludw, stemio mewn ffwrn yn y ddaear) neu fyfyrio ar y rhesymau am wahaniaethau ac amrywiaeth ym mwydydd y byd: megis pwysigrwydd cig 'Halal'i Fwslimiaid, dileu porc o goginio Iddewig, y rhesymau dros Lysieuaeth a Figaniaeth.

### Iechyd a Diogelwch wrth gynhyrchu bwyd (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd, Ansicrwydd a Rhagofalon

Arweiniwch drafodaeth ddosbarth ar faterion fel bwyd GM, defnyddio plaleiddiaid, gwrthfiotigau, hormonau a chadwolion wrth gynhyrchu bwyd a materion eraill sy'n bwysig i'r amgylchedd. Anelwch at ddatblygu cydymdeimlad y disgyblion ag eraill drwy eu dealltwriaeth o mor gymhleth ac ysgubol yw cyd-ddibyniaeth ryngwladol. Anogwch nhw i ystyried canlyniadau penderfyniadau a allai fodloni anghenion a dyheadau yn y fan a'r lle heb gymryd i ystyriaeth y costau i bobl a'r amgylchedd yn y dyfodol.

### Briff Dylunio: Datblygu Byd-eang Cynaliadwy (Safon Uwch)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Newid Cynaliadwy, Ansawdd Bywyd

Fel darn o waith cwrs, gofynnwch i'r myfyrwyr ddylunio a gwneud cynnyrch a fydd yn cyfrannu at ddatblygu byd-eang cynaliadwy. Fel dewis, awgrymwch fod y myfyrwyr yn dylunio cynhyrchon sydd wedi'u bwriadu i fodloni anghenion a disgwyliadau pobl mewn gwlad dramor arall a'i chyd-destun (diwylliannol, cymdeithasol, economaidd etc.). Gwnewch yn siŵr fod y myfyrwyr yn edrych ar y materion amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol, a moesol perthnasol wrth lunio'u briffiau ac wrth weithio ar eu projectau. Mae'r *Cynllun Gwobrau Dylunio Cynaliadwy* http://www.sda-uk.org/ yn un cynllun a allai fod yn defnyddio fel cyd-destun i'r myfyrwyr weithio ynddo.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…
## SAESNEG

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mewn Saesneg, mae'r disgyblion yn ennill ac yn datblygu gwybodaeth a medrau mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Maent yn ystyried y cyd-destun y mae iaith yn cael ei defnyddio ynddo, yn ymateb i sylwedd ac arddull testunau ac yn trafod detholiad amrywiol o destunau llenyddol ac anllenyddol. Mae'r disgyblion yn meithrin eu gallu i adnabod y gwerthoedd a'r agweddau sydd y tu ôl i ddefnydd iaith a sut mae'r rhain yn cael eu mynegi

Y cyfraniad craidd yw'r cyfraniad at **Gysyniadau Allweddol Amrywiaeth** a **Gwerthoedd a Chanfyddiadau**

**Gwybodaeth:** cyfathrebu ag eraill a mynegi safbwyntiau, barn a gwerthoedd.

**Medrau**: cyfathrebu ar lafar, trafod a mynegi barn ar ystod eang o bynciau amlochrog, darllen ac ymateb i ystod eang o destunau llenyddol ac anllenyddol ac ysgrifennu'n ffurfiol ac yn anffurfiol ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd a dibenion.

**Gwerthoedd:** gwrando'n gwrtais ac yn ofalus, gan ymateb yn briodol ac addasu syniadau a safbwyntiau ar sail cyfraniadau pobl eraill. Parchu safbwyntiau ac ymateb yn drugarog a sensitif. Ymateb i ddefnydd iaith, gan wybod y gall iaith gynnwys is-destunau a gogwydd. Mae datblygiad **gwybodaeth** y disgyblion o faterion byd-eang (ac felly gyfraniad Saesneg at **Gysyniadau Allweddol** eraill) yn dibynnu ar y materion a'r deunyddiau a ddewisir gan yr athrawon i'w defnyddio yn y dosbarth.

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**
Mewn Saesneg mae'r disgyblion yn dysgu:

**Gwrando a Siarad:**
Mae'r disgyblion yn dysgu gwrando'n astud a dod o hyd i ffyrdd i negodi consensws a chytuno i anghytuno. Gallai'r gweithgareddau gynnwys gwrando ac ymateb *e.e.* i ddadleuon radio ar faterion fel Dinasyddiaeth Fyd-eang ar sianeli fel BBC World neu Radio Free Europe.

**Darllen:**
Dylai'r disgyblion ddarllen ystod ehangach o lenyddiaeth a thestunau anllenyddol, a allai gynnwys testunau ar faterion o arwyddocâd byd-eang a/neu wedi'u hysgrifennu gan awduron o wledydd tramor.

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**
Gall Saesneg gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Chware rôl:**
Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn cyflwyniadau dramatig, a'r pynciau'n adlewyrchu eu syniadau eu hunain, materion byd-eang neu'n cael eu codi o ddiwylliannau eraill. Gall drama fod yn sbardun hefyd i ystyried sut mae themâu a'r cydadwaith rhwng cymeriadau'n gallu cael eu trosi a'u dehongli yn y cyfnod modern e.e. *Romeo and Juliet* a *West Side Story*, neu thema hiliol *Othello*.

**Trafod/Dadlau:**
Gall y disgyblion ymarfer eu medrau trafod a dadlau drwy siarad am y pynciau byd-eang sydd o ddiddordeb iddynt.

**Ysgrifennu:**
Mae'r disgyblion yn dysgu ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd amrywiol ac at ystod o ddibenion ac yn dod yn gyfarwydd â dewis ffurfiau ac arddulliau *e.e.* paratoi llythyr/deiseb i un o gyrff y Llywodraeth (yn y DU neu dros y môr) i godi ymwybyddiaeth o bwnc llosg y mae'r disgyblion wedi penderfynu bod angen rhoi sylw iddo, e.e. datfforestu, newyn, diffyg dŵr glân, gwledydd cyfoethog yn pentyrru eu stoc o fwyd a deunyddiau, cymorthdaliadau amaethyddiaeth i aelod-wladwriaethau'r UE, defnyddio plant i lafurio etc.

Bydd rhaid iddynt lunio'u dadleuon gan roi sylw i'r ffeithiau a gyflwynir ganddynt, o ba ffynonellau y cânt eu gwybodaeth a pha fath o iaith y maent am ei defnyddio.

**Paratoi Adroddiadau:**
Gallai adroddiad ar bwnc byd-eang olygu bod y disgyblion yn edrych ar destunau ffeithiol neu lenyddiaeth i weld sut mae'r mater yn cael ei weld o safbwynt amser, diwylliant, rhyw a chefndir cymdeithasol. e.e. 'Hawliau Dynol' fel y maent yn *Republic* Plato, *Politics* Aristotlys, *The Tempest* gan Shakespeare, *Cranford* gan Gaskell, *The Brothers Karamazov* gan Dostoevsky.

## CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU SAESNEG: LLEOLI ADF

**Cyfnod Allweddol 3/4**

Mae'r **Rhaglenni Astudio** ar gyfer CA3 ac CA4 yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu'r disgyblion:

**Llafaredd/Darllen/Ysgrifennu:**

- i gymryd safbwyntiau gwahanol i ystyriaeth ac i fwrw ymlaen â syniadau ei gilydd, e.e. dylai'r disgyblion feithrin eu gallu i feddwl a chloriannu'n feirniadol, ond hefyd barchu gwerthoedd ac agweddau pobl eraill
- i gael cyfle i ystyried tarddiad geiriau a sut mae geiriau'n cael eu benthyg o ieithoedd eraill, e.e. canolbwyntio ar gysylltiadau a'r gyd-ddibyniaeth rhwng ieithoedd, cenhedloedd, diwylliannau a phobl yn gyffredinol
- i siarad, darllen ac ysgrifennu at ystod o ddibenion, e.e. er mwyn ymchwilio, esbonio, disgrifio, dadlau, perswadio a dadansoddi gall y disgyblion ddewis pynciau a fydd yn berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang
- i ddarllen deunyddiau o ystod o ffynonellau gan gynnwys testunau gan awduron o Gymru sy'n ysgrifennu mewn Saesneg a'r rhai o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill sy'n cynrychioli eu lleisiau a'u ffurfiau penodol, a safbwyntiau a phynciau eraill, e.e. gall y rhain fod yn ystod eang o destunau anllenyddol (hunangofiannau, cofiannau, dyddiaduron, llythyrau etc.) wedi'u hysgrifennu gan awduron rhyngwladol/tramor; yn ogystal ag ystod eang o gyfryngau a thestunau â delweddau symudol (cylchgronau, papurau newydd etc.), gan ganolbwyntio'n arbennig ar erthyglau sy'n berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang

- i wahaniaethu rhwng ffaith a barn, gogwydd a gwrthrychedd, e.e. gan ystyried pwysigrwydd gwrthrychedd a hunanfynegiant drwy ddadansoddi sefyllfaoedd pan gaiff y rhain eu gwrthod (cyfryngau dan reolaeth, sensoriaeth, etc.)
- ysgrifennu mewn ystod o ffurfiau gan gyfleu yn eglur syniadau, gwybodaeth, barn, safbwyntiau, profiadau a digwyddiadau dychmygus a real, gan ddefnyddio TGCh fel y bo'n briodol, e.e. dewis pynciau a fydd yn berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang

**UG/Safon Uwch**

**Manyleb Enghreifftiol (2005) - Iaith a Llenyddiaeth Saesneg Safon Uwch CBAC**

Mae'r Fanyleb yn dweud:

- Na all astudiaeth iaith nac astudiaeth llenyddiaeth byth gael eu gwahanu o'u cyd-destun: hanesyddol, diwylliannol, cymdeithasol a gwleidyddol.
- Y dylai'r ymgeiswyr allu adnabod gogwydd, safbwynt moesol, rhagfarnau, agweddau a gwerthoedd siaradwyr ac ysgrifenwyr a gallu dadansoddi sut mae'r rhain yn cael eu mynegi drwy'r iaith.
- Meysydd lle gall y disgyblion ymwneud â dinasyddiaeth fyd-eang:
  - Dadansoddi Testunau Llenyddol ac Anllenyddol, e.e. Heart of Darkness Joseph Conrad
  - Iaith a Llenyddiaeth Llefaru - testunau o'r 20fed ganrif yn bennaf, e.e. Remains of the day Kazuo Ishiguro

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Adrodd ar Ddigwyddiadau'r Byd (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Datrys anghydfodau, Amrywiol

Gofynnwch i'r disgyblion astudio ffotograffau wedi'u tocio o olygfeydd yng Ngogledd Iwerddon, Bosnia a Rwanda (o ffynhonnell fel Cysylltiadau Byd-eang Croes Goch Prydain) a thrafod beth sy'n digwydd yn eu barn nhw. Yna dangoswch y lluniau cyflawn a gofyn iddyn nhw roi eu sylwadau ar sut mae hyn yn newid eu syniadau a'u barn. Fel tasg ysgrifennu, gofynnwch iddynt ysgrifennu'r stori gan ddefnyddio arddulliau sy'n briodol i bapurau gwahanol, megis y Western Mail a'r Daily Star. Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn deall y cynulleidfaoedd targed a'r ystod o arddulliau priodol.  Fel gweithgaredd estyn, gallai'r disgyblion gymharu adroddiadau ar ddigwyddiad byd cyfoes mewn gwahanol bapurau ac ar y rhyngrwyd a llunio asesiad beirniadol o'r adroddiadau o ran eu gogwydd a'u gwahanol safbwyntiau.

### Gweithdy Barddoniaeth Affrica: "Imagination is the beginning of creation…" George Bernard Shaw (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a chanfyddiadau

Neilltuwch wers i gynnal Gweithdy Barddoniaeth Affrica lle bydd y disgyblion yn darllen, ysgrifennu ac adrodd cerddi o Affrica. Defnyddiwch adnoddyn fel www.lcd.org.uk http://www.lcd.org.uk/ lle ceir testunau a cherddi am Affrica ac sydd wedi'u hysgrifennu gan bobl o Affrica. Ewch ymlaen mewn gwers arall i drafod syniadau'r disgyblion am Affrica ac, fel ymarfer ysgrifennu, gofynnwch i'r disgyblion ysgrifennu eu cerddi eu hunain gan ddefnyddio arddull a rhythm beirdd Affrica.

### Ffoaduriaid drwy Lenyddiaeth a Barddoniaeth (Safon Uwch)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Anghenion a Hawliau, Ansawdd Bywyd

Defnyddiwch thema 'ffoaduriaid ac alltudiaeth' at ddarn o waith cwrs, gan ei gwneud yn ofynnol i'r myfyrwyr ystyried y thema hon mewn gweithiau gan e.e. Thomas Mann, Franz Kafka, Esther Hautzig (*The Endless Steppe*) neu Bertold Brecht (*Concerning the Label Emigrant*).  Bydd hyn yn caniatáu i'r myfyrwyr nid yn unig ymgynefino â llenyddiaeth o ddiwylliannau eraill ond hefyd ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gysyniadau anodd nad oes cytundeb yn eu cylch.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… DAEARYDDIAETH

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae astudio daearyddiaeth yn ehangu ac yn dyfnhau dealltwriaeth y disgyblion o bobl, lleoedd ac amgylcheddau ac o sut mae patrymau a phrosesau daearyddol yn newid dros amser a lle.

Mae’r disgyblion yn ennill gwybodaeth, medrau a gwerthoedd sy’n berthnasol i nifer o’r **Cysyniadau Allweddol** megis **Cyd-ddibyniaeth**, **Newid Cynaliadwy, Ansawdd Bywyd, Amrywiaeth, Anghenion a Hawliau** ac **Ansicrwydd a Rhagofalon.**

**Gwybodaeth:** am bobl, lleoedd ac amgylcheddau mewn gwahanol rannau o’r byd ac am themâu daearyddol ehangach, a welir o safbwynt lleol, rhanbarthol a byd-eang.

**Gwerthoedd:** cydnabod sut mae newidiadau’n effeithio ar fywydau pobl a sut mae gwerthoedd ac agweddau a phenderfyniadau’n effeithio ar ansawdd bywyd heddiw ac yfory.

**Medrau:** deall y perthnasoedd a’r gyd-ddibyniaeth gymhleth rhwng datblygiad dynol a’r amgylchedd byd-eang

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn daearyddiaeth mae’r disgyblion yn dysgu:

**Nodi** gwahaniaethau, tebygrwydd, ac amrywiaeth lleoedd sy’n creu patrymau byd-eang. Er enghraifft, dosbarthiad adnoddau, gweithgarwch economaidd a digwyddiadau eithafol fel peryglon.

**Edrych ar y cysylltiadau a’r cydadweithiau byd-eang rhwng pobl, lleoedd ac amgylcheddau** a’r gyd-ddibyniaeth sy’n deillio ohonynt. Er enghraifft astudio cynhesu byd-eang, masnach y byd a chynaliadwyedd.

**Meithrin dealltwriaeth o sut** mae newid yn effeithio ar fywydau pob dydd pobl gan gynnwys eu bywydau hwy eu hunain yng Nghymru. Er enghraifft ail-leoli canolfannau galwadau o Gymru i India

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Gall daearyddiaeth gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Casglu, dadansoddi a chloriannu’n feirniadol ddata o wahanol ffynonellau** i gynhyrchu esboniadau diduedd ac i ddod o hyd i’r pynciau llosg e.e. defnyddio tafluniad map Peters. Gan ddefnyddio GIS (systemau gwybodaeth ddaearyddol) gallant edrych ar sut mae trosglwyddo syniadau, gwerthoedd a gwybodaeth yn effeithio ar bobl ledled y byd.

**Defnyddio technegau penderfynu a datrys problemau.** Er enghraifft er mwyn cloriannu cwestiynau am ddefnyddio fforestydd, diffyg dŵr neu gynlluniau i wella trefi sianti.

**Datblygu dull myfyrgar a beirniadol** o edrych ar dystiolaeth, **a thrwy ddadlau a thrafod** herio delweddau negyddol neu stereoteipiau yn ogystal â meithrin eu gwerthoedd a’u hagweddau eu hunain at faterion byd-eang, e.e. at fudo poblogaethau.

## CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU DAEARYDDIAETH: LLEOLI ADF

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu'r disgyblion am y canlynol:<br><br>**Lleoedd**<br>• un wlad sy'n llai datblygedig yn economaidd<br>• y nodweddion dynol sy'n achosi nodweddion arbennig y wlad<br>• sut y mae'r wlad yn rhan o gyd-destun byd-eang ehangach a dangos sut y mae'n gyd-ddibynnol gyda gwledydd eraill<br>• sut y mae nodweddion datblygiad yn y wlad yn cymharu â phatrymau byd-eang a sut y maent yn effeithio ar ansawdd bywyd gwahanol grwpiau o bobl.<br><br>**Themâu**<br>Themâu sy'n arbennig o berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang yw<br>• Poblogaeth<br>• Anheddu<br>• Gweithgarwch economaidd<br>• Materion amgylcheddol<br>• Materion adnoddau<br>• Newid Amgylcheddol Byd-eang |
| **TGAU** | **Manyleb Enghreifftiol 2005/6 – TGAU Daearyddiaeth CBAC**<br><br>Un o **Nodau**'r Fanyleb yw:<br>"datblygu dealltwriaeth o ddinasyddiaeth fyd-eang a'r ffyrdd y mae lleoedd ac amgylcheddau'n gyd-ddibynnol"<br><br>Mae'r Fanyleb wedi'i rhannu'n ddwy Uned:<br>Uned 1: Agweddau ffisegol ac amgylcheddol y pwnc sydd wedi'i seilio ar gwestiwn cynaliadwyedd<br>Uned 2: Agweddau dynol ar ddatblygu cysyniad dinasyddiaeth fyd-eang, drwy astudio: Anghydraddoldebau, Symudiadau poblogaethau, Masnach ryngwladol.<br><br>Mae'r Fanyleb hefyd yn gofyn am 'Ymchwiliad daearyddol' – a allai fod yn bwnc byd-eang. |

| | |
|---|---|
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2005/6) – Daearyddiaeth Safon Uwch CBAC**<br><br>Mae'r Fanyleb yn annog y myfyrwyr:<br>• i feithrin dealltwriaeth o'r gydberthnasoedd rhwng pobl a'u hamgylcheddau, e.e. effeithiau mudo ar ardaloedd gwledig a threfol<br>• edrych ar rôl, agweddau a chanfyddiadau pobl sy'n ymwneud â phrosesau penderfynu, e.e. faint o gyrff ac unigolion sy'n ymwneud â dylunio strategaethau ar gyfer datblygu'r economi e.e. wrth ddatblygu cysylltiadau rhwng Cymru a gwledydd eraill<br>• Dyma unedau sy'n arbennig o berthnasol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang:<br>- Uned GG2 Prosesau a Materion mewn Amgylcheddau Dynol<br>- Uned GG4 Prosesau Daearyddol a sut y cânt eu Rheoli<br>- Anghydraddoldebau o ran Datblygiad a Newidiadau Daearyddol Gweithgareddau Economaidd<br>- Uned GG5 Datblygu Cynaliadwy<br>- Cynaliadwyedd a'r Cyflenwad Bwyd/Dŵr<br>- Cynaliadwyedd a'r Amgylchedd Naturiol/Trefol |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

**'Rydych yn ddefnyddiwr; yn prynu ym marchnad y byd'**

**Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddibyniaeth (Cyfnod Allweddol 3)**

Mae disgyblion sy'n astudio gwahanol fathau o weithgarwch economaidd yn ymchwilio i'[r cysylltiadau rhwng eu bywydau eu hunain fel 'defnyddwyr' a bywydau'r cynhyrchwyr. Mae'r disgyblion yn cadw dyddiadur defnyddiwr am wythnos - 'Beth ydw i wedi'i brynu ac o ble mae wedi dod ?' Dewiswch ddau fath o gynhyrchion, e.e. siocled a chrys T neu esgidiau ymarfer er mwyn datblygu cadwyn ganlyniadau o sut mae defnyddwyr yng Nghymru'n gallu effeithio ar fywydau gweithwyr mewn gwledydd eraill. Defnyddiwch gêm fasnachu er mwyn i'r disgyblion ddatblygu ymhellach ar eu dealltwriaeth, eu gwerthoedd a'u hagweddau eu hunain at faterion defnyddwyr yng nghyd-destun gwneud penderfyniadau.

**'Mudo: profiadau personol'**

**Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddibyniaeth, Anghenion a Hawliau, Ansicrwydd a Rhagofalon (Cyfnod Allweddol 4)**

Trefnwch i'r disgyblion sy'n astudio symudiadau poblogaethau gyf-weld â phobl leol i gael profiad uniongyrchol o fudo. Gall hyn gynnwys eu teuluoedd eu hunain, pobl a ddaeth o wledydd eraill i Gymru neu'r rhai sydd wedi newid aelwyd yng Nghymru neu wedi symud o Gymru i wlad dramor, e.e. drwy gysylltu â grŵp cymunedol a chymdeithas Gymreig dros y môr. Wedyn, trefnwch drafodaeth ddosbarth ar fudo i gynnwys mudwyr economaidd, ffoaduriaid a cheiswyr lloches; Pam mae pobl yn mudo? O ble maen nhw'n dod? Beth yw'r heriau a'r manteision? Anogwch y disgyblion i edrych ar eu hagweddau eu hunain a chydnabod sut mae rhai delweddau'n stereoteipiau.

**'Beth yw'ch cysyniad chi o Ddatblygu ?'**

**Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau (Safon Uwch)**

Gofynnwch i'r myfyrwyr ystyried 'Beth yw ystyr 'Datblygu'' a sut mae gwerthoedd ac agweddau cymunedau gwahanol yn dylanwadu ar syniadau am fanteision ac anfanteision datblygu. Ysgogwch drafodaeth drwy chwarae rôl/ymarfer gwneud penderfyniadau ar senario datblygu, e.e. ar gyfer pentref gwledig yn Nepal, drwy ddefnyddio gwybodaeth oddi ar wefan Parciau Cenedlaethol Nepal (http://www.nepalhmg.gov.np/). Gwnewch gymhariaeth o'r costau a'r buddion mewn gwahanol fathau o ddatblygiad i'r gwahanol gyfran-ddeiliaid, e.e. technoleg amgen graddfa fach, cwmni amlwladol graddfa fawr, menter gymunedol, cynllun cyllid micro. Wedyn gall y myfyrwyr edrych ar sut mae ystyr datblygu wedi newid dros amser a lle, a thrafod pam y gallai rhai pobl feddwl bod 'Datblygu'n drewi' (Gustavo Esteva).

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…
## HANES

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae astudio hanes yn caniatáu i'r disgyblion ymchwilio ac ehangu eu gwybodaeth a'u dealltwraieth o wahanol gyfnodau hanes a'u dylanwad ar fywyd heddiw; dysgu sut a pham mae digwyddiadau a phobl wedi'u dehongli mewn ffyrdd gwahanol; ystyried achosion a chanlyniadau digwyddiadau hanesyddol a'r cysylltiadau rhyngddynt.

Mae'r disgyblion yn sicrhau gwybodaeth, dealltwraieth, medrau a gwerthoedd sy'n berthnasol i'r mwyafrif o'r **Cysyniadau Allweddol,** gan gynnwys **Cyd-ddibyniaeth, Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth, Anghenion a Hawliau, Amrywiaeth, Ansawdd Bywyd, Ansicrwydd a Rhagofalon, Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Datrys Anghydfodau.**

**Gwybodaeth:** o wahanol gyfnodau, digwyddiadau ac unigolion a'r cysylltiadau rhyngddynt; adnabod y prosesau o newid a deall bod dehongliadau gwahanol ar y rhain yn gallu bod yr un mor ddilys â'i gilydd; a chydnabod bod cwestiynau ynghylch anghenion a hawliau sylfaenol pobl yn ailddigwydd ym mhob cyfnod.

**Gwerthoedd:** parchu amrywiaeth (a thebygrwydd) y profiad dynol drwy hanes a'r ffyrdd gwahanol y bydd pobl yn canfod ac yn cynrychioli'r profiad hwnnw.

**Medrau:** y gallu i asesu tystiolaeth a'i defnyddio'n feirniadol; i dynnu casgliadau ar sail ystiolaeth; i chwilio am achosion a chanlyniadau, tebygrwydd a gwahaniaethau ac i chwilio am achosion anghydfodau a'r atebion iddynt.

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn hanes mae'r disgyblion yn dysgu:

**Astudio cyfnodau a themâu hanes y byd** (e.e. ymfudo) sy'n cynnig cyfleoedd i ystyried digwyddiadau ac unigolion a'u gosod mewn cyd-destun byd-eang, fel rhan o ddeall prosesau newid hanesyddol.

**Cysylltu hanes Cymru a Phrydain â hanes y byd**. Er enghraifft, gall disgyblion sy'n dysgu am hanes glofeydd Cymru gael cyfleoedd i ystyried strwythurau gwleidyddol a masnachol byd-eang a gyfrannodd at eu cynnydd a'u dirywiad.

**Defnyddio gweithgareddau dosbarth**

Gall hanes gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Defnyddio ystod o ffynonellau a mathau o dystiolaeth hanesyddol** y maent yn dod o hyd iddynt, eu cloriannu, eu defnyddio a'u dehongli. Mae hyn yn hybu gallu'r disgyblion i feddwl yn feirniadol a'u gallu i herio gogwydd, stereoteipiau a rhagdybiaethau.

**Gwneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng gwahanol gyfnodau a digwyddiadau,** gan ddysgu gweld darlun mwy byd-eang o'r gorffennol o wahanol safbwyntiau

| | |
|---|---|
| **Edrychwch ar sut mae datblygiadau yn y byd ehangach wedi dylanwadu ar fywyd yng Nghymru**. Er enghraifft, gallai myfyrwyr Safon Uwch sy'n astudio'r ugeinfed ganrif cynnar edrych ar sut dylanwadodd delfrydau sosialaidd cydraddoldeb ar wleidyddiaeth a chymdeithas. | hanesyddol. Gall cysylltiadau ag ysgolion a disgyblion mewn gwledydd eraill gynnig cyfleoedd i gymharu a chyferbynnu gwybodaeth am hanes ac agweddau ato.<br><br>**Gwneud hanes yn fyw!** Mae’r disgyblion yn dysgu bod hanes yn ymwneud â bywydau pobl o gig a gwaed ac mae hyn yn hybu dealltwriaeth o bobl eraill. Gall ystyried safbwyntiau gwahanol ar ddigwyddiadau cyfarwydd drwy ddefnyddio disgrifiadau uniongyrchol, fod yn arbennig o rymus |

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU HANES: LLEOLI ADF**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Mae’r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu’r disgyblion:<br>• i ddadansoddi amrywiaeth profiad pobl mewn hanes ac achosion a chanlyniadau digwyddiadau, sefyllfaoedd a newidiadau **(Gwybodaeth a Dealltwriaeth Hanesyddol)** Cysyniadau Allweddol: Amrywiaeth; Ansawdd Bywyd<br>• i wneud cymariaethau a chysylltiadau **(Gwybodaeth a Dealltwriaeth Hanesyddol)** Cysyniadau Allweddol: Cyd-ddibyniaeth<br>• i ystyried sut a pham mae rhai digwyddiadau, pobl a newidiadau wedi’u dehongli’n wahanol **(Dehongliadau Hanesyddol)** Cysyniadau Allweddol: Gwerthoedd a Chanfyddiadau; Ansicrwydd a Rhagofalon; Datrys Anghydfodau<br><br>Mae’r cyfnodau a’r themâu rhagnodedig yn cynnwys:<br>• **Cymru ym Mhrydain Ddiwydiannol tua 1760 – 1914** (Cysyniadau Allweddol: Amrywiaeth; Newid Cynaliadwy; Ansawdd Bywyd)<br>• **Byd yr Ugeinfed Ganrif** (Cysyniadau Allweddol: Anghenion a Hawliau; Amrywiaeth; Ansicrwydd a Rhagofalon; Gwerthoedd a Chanfyddiadau; Datrys Anghydfodau)<br>• **Un** o’r **themâu hanesyddol** gosod**.** Mae’r rhai sy’n arbennig o berthnasol i Ddinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys: Fforio a darganfyddiadau; Rhyfel a chymdeithas (Cysyniadau Allweddol: Datrys anghydfodau); Chwyldroadau (Cysyniadau Allweddol: Anghenion a Hawliau; Gwerthoedd a Chanfyddiadau); Ffiniau; Mudo ac ymfudo (Cysyniadau Allweddol: Anghenion a Hawliau) ac Ymerodraethau |

| | |
|---|---|
| **TGAU** | **Manyleb Enghreifftiol (2005/6)– TGAU Hanes CBAC**<br><br>Mae'r Fanyleb yn gofyn bod y myfyrwyr yn astudio ar ddwy raddfa o leiaf. Ceir **topigau** yn hanes y byd ymhlith y topigau astudio ar gyfer yr arholiad. Mae'r rhain yn cynnwys: *Tsieina o dan Mao Ze Dong*; *De Affrica 1960-1994*; *Y Dwyrain Canol 1919-1990*; *Yr Undeb Sofietaidd 1924-1991* a'r *Unol Daleithiau 1929-1990*.<br><br>Gall **aseiniadau'r** myfyrwyr i'w hasesu'n fewnol gynnwys topigau hanes y byd hefyd . |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2004) – Hanes Safon Uwch CBAC**<br><br>Mae'r Fanyleb yn canolbwyntio ar hanes Cymru/Prydain ac Ewrop. Mae nifer o'r topigau gosod yn gofyn bod y myfyrwyr yn ystyried cysylltiadau â hanes y byd. Mae'r rhain yn cynnwys:<br>• Agweddau ar Hanes Ewrop 1878-1980 (e.e. 'cysylltiadau rhyngwladol')<br>• Agweddau ar Hanes Cymru a Lloegr 1880-1980 (e.e. 'polisi tramor Prydain') |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Cymru a Lesotho: cysylltiadau heddiw ac yn y gorffennol (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Datrys Anghydfodau, Anghenion a Hawliau

Fel rhan o astudio Byd yr Ugeinfed Ganrif, gall y disgyblion edrych ar y berthynas rhwng y ddwy wlad heddiw ac yn y gorffennol, gan adolygu eu hastudiaethau ar gyfnodau cynharach mewn hanes a myfyrio ar effeithiau'r fasnach gaethweision, gwladychiaeth a'r Ymerodraeth Brydeinig ar wledydd eraill ac ar Gymru ei hun. Wedyn gallant gymharu'r cysylltiadau rhwng Cymru a Lesotho heddiw. Beth yw'r gwahaniaethau? Beth yw'r manteision i'r ddwy wlad? Beth yw'r rhwystrau a'r anawsterau y mae'n rhaid gweithio yn eu herbyn o hyd? Un ffynhonnell dda o wybodaeth yw 'Dolen Cymru' (www.dolencymru.com http://www.dolencymru.com) sy'n darparu pecynnau addysg dwyieithog.

### 'Cry Freedom' fel dehongliad o Apartheid (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Anghenion a Hawliau

Fel rhan o dopig TGAU ar Dde Affrica, dangoswch y ffilm 'Cry Freedom'. Yna arweiniwch drafodaeth ddosbarth, gan sicrhau bod y myfyrwyr yn myfyrio ar sut mae'r ffilm yn portreadu Apartheid. Ydy hi'n adlewyrchu'r hyn y mae'r disgyblion wedi'i ddysgu yn y dosbarth? Sut mae'r ffilm yn awgrymu bod pob ddu a phobl wyn wedi ymdopi â braw ac anghyfiawnder? Ydy gwneuthurwr y ffilm am i ni feddwl bod newid yn Ne Affrica wedi deillio o weithredoedd unigolion blaenllaw? A pha mor gredadwy yw safbwynt o'r fath?

### 'Pobl Romani a'r Holocost'

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Anghenion a Hawliau, Ansawdd Bywyd (Safon Uwch)

Wrth astudio'r Ail Ryfel Byd a'r Almaen o dan y Natsïaid, fel rhan o gwrs UG/Safon Uwch, gall y myfyrwyr ymchwilio i sefyllfa'r boblogaeth Romani yn yr Almaen (*Sini)*. Roedd y Roma a'r Iddewon yn rhannu hanes tebyg o ormes, alltudiaeth, cymhathu ac wedyn, difodiant ar sail hil. Ym 1937, gostyngodd y Ddeddf Dinasyddiaeth Genedlaethol y Roma a'r Iddewon i statws dinasyddion eilradd a'u hamddifadu o'u hawliau sifil. Gall y myfyrwyr achub ar y cyfle hwn i fyfyrio ymhellach ar anghenion a hawliau grwpiau lleiafrifol a thrafod sut mae rhagdybiaethau a stereoteipiau'n gallu arwain at fraw ac anghydfod.
Dyma rai ffynonellau posibl: www.herts.ac.uk/UHPress/holocaust.html
www.brad.ac.uk/bradinfo/university/newsandviews/96-02nvtebbutt.html

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…
## TECHNOLEG GWYBODAETH

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae astudio TG yn caniatáu i'r disgyblion ddatblygu'r medrau a'r ddealltwriaeth i'w paratoi eu hunain i gymryd rhan mewn byd sy'n newid yn gyflym lle mae gweithgareddau'n cael eu gweddnewid yn fwyfwy gan y cyfle i ddefnyddio TG. Mae ganddynt gysylltiad cyflym ag ystod eang o wybodaeth, syniadau a phrofiadau gwahanol bobl, diwylliannau a chymdeithasau, sy'n caniatáu iddyn nhw ddatblygu eu chwilfrydedd, eu menter a'u medrau dysgu annibynnol. Bydd cyfraniad TG at **Gysyniadau Allweddol** Dinasyddiaeth Fyd-eang yn dibynnu i raddau helaeth ar yr aseiniadau a'r tasgau y bydd yr athrawon yn eu dewis. Ym mhob achos, mae cyfle i sensiteiddio'r disgyblion i'r ffyrdd y mae TG yn gyrru mathau newydd o globaleiddio a chyfathrebu byd-eang.

**Gwybodaeth:** sut i gyrchu symiau mawr o wybodaeth a gwneud gwerthfarnau am ansawdd a dibynadwyedd yr wybodaeth a gasglwyd ganddynt. Meithrin dealltwriaeth o effaith TG ar y byd y tu allan i'r ysgol.

**Gwerthoedd:** deall bod y cyfle i ddefnyddio hysbysrwydd a gwybodaeth yn grymuso pobl. Mae gan TG y potensial i gynnig y cyfle hwnnw ni waeth beth fo hil, rhyw neu leoliad pobl.

**Medrau:** defnyddio TG i ategu eu gwaith mewn pynciau eraill, a ffurfio barn am gyfyngiadau defnydd TG. Defnyddio adnoddau TG i gyrchu, cyfleu, trin a chyfnewid gwybodaeth, a defnyddio'r wybodaeth honno i fwydo'u syniadau a'u barn am y byd o'u cwmpas.

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn TG mae'r disgyblion yn dysgu**:**

**Cyfleu a chyfnewid gwybodaeth** drwy ddefnyddio ystod o adnoddau TG i greu cyflwyniadau sy'n cyfuno gwahanol fathau o wybodaeth.

**Trin gwybodaeth** ar ffurf data wedi'i gasglu ac wedi'i fwydo i gronfa ddata/taenlen er mwyn tynnu gwybodaeth 'newydd' ar ffurf graffiau neu siartiau.

**Ystyried:**

**materion moesol a moesegol** gan gynnwys camddefnyddio'r rhyngrwyd, yr hawl i breifatrwydd unigol a diogelu data;

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Gall TG gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Datblygu** cyflwyniad amlgyfrwng neu wefan am faterion o ddiddordeb a dadleuon yn eu hardal a chan wahodd sylwadau a chymariaethau â rhanbarthau/gwledydd eraill

**Dadansoddi a gwneud rhagfynegiadau** ar sail data a gasglwyd oddi ar amrywiol wefannau rhyngwladol *e.e.* ar effeithiau 'cynhesu byd-eang'

**Defnyddio cysylltiadau rhyngwladol yr ysgol** ac e-bost i ymgyfarwyddo â diogelu data, cyfraith droseddol y rhyngrwyd etc. fel y maent yn bodoli mewn gwledydd eraill. Ydyn nhw yr un fath, yn debyg neu'n wahanol - a pham?

| | |
|---|---|
| **materion cymdeithasol a diwylliannol** er enghraifft, argaeledd, defnydd a mynediad i gyfleusterau, addysg a hyfforddiant TG. Gwahanol agweddau at dechnoleg, argaeledd gwybodaeth, a materion iaith. | **Defnyddio** cysylltiad Gogledd-De i ddarganfod sut mae cyfrifiaduron a'r rhyngrwyd yn cael eu defnyddio yn y gyd-ysgol a'i chymuned. Ydy caffis seibr yn fwy cyffredin yng Nghymru neu yn y gwledydd eraill a pham? Sut gallai gwerthoedd ac agweddau gwahanol effeithio ar boblogrwydd gwefannau *e.e.* gwefannau priodi yn India. |

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU TECHNOLEG GWYBODAETH: LLEOLI ADF**

**Cyfnod Allweddol 3**

Mae'r adran **'Cyfleu a Thrin Gwybodaeth'** yn y Rhaglen Astudio yn ei gwneud yn ofynnol y dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:

- gweithio gyda mathau gwahanol o wybodaeth gan ystyried sut mae ei nodweddion yn dylanwadu ar sut mae'n cael ei defnyddio
- ystyried i ba ddibenion y mae'r wybodaeth i gael ei phrosesu a'i chyfleu
- trafod rhai o'r materion cymdeithasol, economaidd, moesegol a moesol a godir gan TG

**TGAU**

**Manyleb Enghreifftiol – TGAU CBAC mewn TG**

Nodau'r Fanyleb:

- annog y myfyrwyr i gasglu, storio, prosesu a chyfleu gwybodaeth drwy weithgareddau mewn ystod o gyd-destunau, e.e. cymdeithasol (hygyrchedd ac argaeledd); diwylliannol (addasiadau ac agweddau);
- meithrin dealltwraieth o gymwysiadau ac effeithiau ehangach TG, e.e. esbonio effaith TG ar gyd-ddibyniaeth fyd-eang, e.e. trafod goblygiadau defnyddio TG ar gyfer yr amgylchedd
- dylent allu myfyrio'n feirniadol ar effaith TG ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, gan ystyried y materion cymdeithasol, economaidd, gwleidyddol, cyfreithiol, moesegol a moesol, e.e. manteision ac anfanteision TG; diogelwch gwladol; masnach ryngwladol; natur sensoriaeth
- deall darpariaethau Deddf Diogelu Data 1998; hawliau'r tesun data, deiliad y data a'r esemptiadau

Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth:

- dangos pam a sut mae technoleg yn cael ei datblygu ar gyfer unigolion a chyrff,e.e. systemau rheoli a dylunio rhyngwynebau i'r rhai sydd ag anableddau

| | |
|---|---|
| | - gwneud y myfyrwyr yn ymwybodol o effaith technoleg ar y byd gwleidyddol, economaidd a hamdden yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang, e.e. defnyddio e-fusnes mewn dylunio a datblygu byd-eang , a gweithio o gartref |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2003)– UG/Safon Uwch TG Edexcel**<br><br>"Mae natur ryngwladol mecanweithiau systemau cyfathrebu sydd wedi'u seilio ar TG yn ei gwneud yn ofynnol i athrawon a myfyrwyr edrych ar y pwnc o safbwynt byd-eang."<br><br>'Cymhwyso rhif': Dylai un ffynhonnell o leiaf fod yn dabl, siart, diagram neu graff llinell:e.e. gall y data a'r enghreifftiau a ddefnyddir fod yn berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang megis: dyledion rhyngwladol, masnach deg, llygru'r amgylchedd, cyfraddau tlodi, twf poblogaethau. |

## Syniadau i’ch rhoi ar ben y ffordd…

### Defnyddio taenlen i ddadansoddi disgwyliad oes (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd

Gan weithio mewn parau, mae’r disgyblion yn dewis dwy neu dair gwlad ac yn ymchwilio (o adnoddau fel Atlas Banc y Byd) i ddisgwyliad oes cyfartalog a dangosyddion cymdeithasol ac economaidd eraill y gwledydd. Maent yn dylunio taenlen i gyflwyno’r data (gallai’r disgyblion galluocaf gynhyrchu siartiau a graffiau hefyd). Pan fydd y gwaith wedi’i gwblhau, mae’r disgyblion yn cyflwyno’u canfyddiadau i’r dosbarth ac fe allent ystyried beth yw’r rhesymau a’r cyfiawnhad dros y gwahaniaethau.

### Cynhyrchu cylchgrawn ar-lein (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiol

Fel darn o waith cwrs, mae’r disgyblion yn dylunio ac yn cynhyrchu cylchgrawn ar-lein sy’n canolbwyntio ar faterion byd-eang (e.e. newyddion o bedwar ban y byd; adolygu gwefannau o wledydd gwahanol). Gallai disgyblion sy’n astudio pynciau eraill gyfrannu deunyddiau hefyd o’u gwaith yn y pynciau hynny (e.e. myfyrwyr celf - ffasiwn ryngwladol/bwletin celf). Rhaid i’r disgyblion ddangos eu bod yn gallu defnyddio’u medrau TGCh i feistroli ochr dechnegol y project a’u bod yn gallu ymdopi â dylunio i’r we, sganio a gweithgareddau angenrheidiol eraill.

### Dibynadwyedd, gogwydd a dilysrwydd gwybodaeth (Safon Uwch)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a chanfyddiadau

Fel darn o waith cwrs i ateb y gofyniad bod rhaid ‘cyflwyno gwybodaeth’ mewn ffordd sy’n briodol i’r gynulleidfa arfaethedig. Gan ddefnyddio’r rhyngrwyd i ymchwilio, mae’r disgyblion yn ysgrifennu cyflwyniad PowerPoint sy’n ystyried y berthynas rhwng rhannau mwyaf a lleiaf economaidd ddatblygedig y byd. Er enghraifft, ‘Ydy’r gwledydd tlawd yn cael eu hecsbloetio gan y cenhedloedd cyfoethog drwy drin y cyflenwad a’r galw?’ Maent yn tanlinellu ‘camwybodaeth’ wrth gloriannu a dadansoddi gwefannau, ac yn ffurfio barn am ddilysrwydd yr wybodaeth, gan gymryd i ystyriaeth y dylanwadau diwylliannol, cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol posibl ar y bobl a baratôdd yr wybodaeth. Wedyn maent yn cyflwyno’u dadleuon i’r gynulleidfa arfaethedig (e.e. tiwtor/dosbarth, unedau Bagloriaeth Cymru, gwobrau Dug Caeredin, cystadlaethau siarad cyhoeddus/dadlau).

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… MATHEMATEG

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae natur mathemateg yn golygu y bydd ei chyfraniad at Ddinasyddiaeth Fyd-eang yn dibynnu ar y cyd-destunau a roddir i'r disgyblion i wneud eu gwaith mathemategol. Bydd cyfraniad mathemateg at y **Cysyniadau Allweddol** yn dibynnu ar y materion a'r deunyddiau a ddewisir gan yr athrawon i'w defnyddio yn y dosbarth.

**Gwybodaeth:** y gall mathemateg gael ei defnyddio i ddadansoddi, dehongli ac ategu penderfyniadau ar faterion sy'n berthnasol yn fyd-eang.

**Medrau:** y gallu i gymhwyso dulliau mathemategol at sefyllfaoedd yn y byd go iawn.

**Defnyddio cynnwys y pwnc**
Mewn mathemateg mae'r disgyblion yn dysgu:

casglu, cyflwyno, dadansoddi, dehongli a chyflwyno data a chasgliadau

defnyddio iaith fathemategol i fynegi gwybodaeth

dewis gwahanol ymagweddau a syniadau a myfyrio arnynt

llunio a phrofi cyffredinoliaethau

dadansoddi problemau cymhleth yn gyfres o dasgau a rhoi atebion i gwestiynau

**Defnyddio gweithgareddau dosbarth**
Gall mathemateg gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

dehongli ffynonellau gwybodaeth a chyfiawnhau casgliadau e.e. dehongli graff o drosglwyddiad HIV dros amser a dweud a yw'r cyfraddau'n codi (graddiant cromlin)

Defnyddio cysylltiadau rhyngwladol â disgyblion eraill ledled y byd i rannu, cymharu/cyferbynnu, cloriannu a chyfnewid eu canfyddiadau, eu data a'u rhesymu mathemategol

Cymharu dulliau o wledydd gwahanol : e.e. dull Tsieina o ddod o hyd i rifau cysefin; dulliau Rwsia neu'r Aifft o luosi; neu system rif Iorwba sydd wedi'i seilio ar ugain (yr un fath â'r Gymraeg!)

Pwyso a mesur tystiolaeth a datblygu ymwybyddiaeth o ganfyddiadau, camwybodaeth, camsyniadau posibl e.e. profi'r gyffredinoliaeth bod 'Ewrop yn gyfandir cyfoethog' drwy ystyried ffigurau CMC; mae hyn yn golygu defnyddio ffigurau mewn gwahanol fathau o arian y bydd angen eu trosi cyn llwyddo i gymharu

Defnyddio technegau ymchwilio a data mathemategol i gloriannau'r gosodiad bod gan wledydd datblygedig well gwarchodaeth amgylcheddol na gwledydd llai datblygedig.

## CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU MATHEMATEG: LLEOLI ADF

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3/4** | **Mae'r Rhaglenni Astudio ar gyfer CA3 ac CA4 yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu'r disgyblion:**<br><br>"i ddefnyddio profiad blaenorol a gwybodaeth gysylltiedig wrth ystyried problemau mathemategol neu rai yn y byd go iawn"<br><br>• Dylai'r disgyblion gael cyfleoedd:<br>- i ddefnyddio a chymhwyso mathemateg mewn tasgau ymarferol, mewn problemau o fywyd go-iawn … mewn dulliau sy'n herio ac yn estyn eu dealltwriaeth, e.e. y berthynas rhwng cynhesu byd-eang, codiad yn lefel y môr a llifogydd ar yr arfordir<br>- i wneud ymholiadau pwrpasol trwy ffurfio cwestiynau, adnabod y data angenrheidiol ac yna'u casglu, eu cynrychioli, eu dadansoddi a'u dehongli, e.e. ymchwilio i ffynonellau ynni amgen (cymharu eu heffeithlonrwydd a'u costau) fel ateb i broblemau amgylcheddol<br><br>• Wrth astudio 'Algebra' [CA3]:<br>- dylid addysgu'r disgyblion i lunio a dehongli graffiau sy'n disgrifio sefyllfaoedd o fywyd go iawn, e.e. defnydd dŵr (mewn litrau) mewn cartrefi mewn gwledydd gwahanol o'u cymharu â'r adnoddau dŵr / defnyddio graffiau a fformwlâu i ddisgrifio tueddiadau poblogaeth ar draws y byd |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2002) - Mathemateg Safon Uwch Edexcel**<br><br>• Nodau'r Fanyleb yw annog yr ymgeiswyr :<br>- i ddefnyddio mathemateg fel ffordd effeithiol i gyfathrebu, e.e. mathemateg fel iaith ryngwladol a chyffredinolrwydd mathemateg fel ffordd i chwalu rhwystrau diwylliannol<br>- i ddeall y berthynas rhwng problemau'r 'byd go iawn' a modelau mathemategol safonol ac eraill a gweld sut gall y rhain gael eu mireinio a'u gwella, e.e. y berthynas rhwng oedran, rhyw ac iechyd mewn gwahanol wledydd (astudiaethau cymharol)<br>- i feithrin ymwybyddiaeth o berthnasedd mathemateg i feysydd astudio eraill, i fyd gwaith ac i'r gymdeithas yn gyffredinol, e.e. sut mae canfyddiadau a data mathemategol yn cael eu defnyddio gan gyrff rhyngwladol fel WTO, IMF neu NGOs |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Prisiau rhyngwladol (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Anghenion a Hawliau, Ansawdd Bywyd

Gofynnwch i'r disgyblion ddylunio a chynnal holiadur ar brisiau eitemau cartref cyffredin, bwyd, prisiau tai, dillad neu offer electronig (CDs, DVDs, gemau electronig). Defnyddiwch gysylltiad ysgol sydd eisoes yn bodoli (neu ffurfiwch gysylltiad newydd) i alluogi'r disgyblion i ddosbarthu'r holiadur a sicrhau gwybodaeth o ranbarth arall. Os casglwch chi wybodaeth o wlad arall, bydd hyn yn gyfle i'r disgyblion drosi prisiau rhwng gwahanol fathau o arian er mwyn cymharu arferion gwario. Bydd dadansoddi'r canfyddiadau a'u cynrychioli â graffigwaith yn golygu defnyddio ystod o fedrau mathemategol, a bydd trafod y canlyniadau'n helpu'r disgyblion i fod yn fwy ymwybodol o fywydau pobl eraill mewn ardaloedd neu wledydd gwahanol

### Mathemateg ar gyfer materion byd-eang (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiol

Mae pynciau sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth fyd-eang, megis dyledion rhyngwladol, masnach deg, llygru'r amgylchedd, disgwyliad oes, cyfraddau tlodi neu dwf poblogaethau yn ffynhonnell doreithiog ar gyfer gwaith sy'n ymwneud â chasglu, cynrychioli a dadansoddi data. Gallai dadansoddi effaith cyfraddau cyfnewid ar gost eitemau mewn gwledydd y mae'r disgyblion wedi ymweld â nhw helpu i hybu cydymdeimlad y disgyblion a'u dealltwriaeth o bobl eraill. Byddai gwaith mewn siâp, gofod a mesur yn cael ei gyfoethogi drwy gynnwys dadansoddiad ar nodweddion ac ystyron patrymau eiconig o wahanol ddiwylliannau.

### Mathemateg a'i gwreiddiau amrywiol (Safon Uwch)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiaeth, Cyd-ddibyniaeth, Ansawdd bywyd, Ansicrwydd a rhagofalon

Gall hanes mathemateg gynnig golwg gyfoethog ar ei gwreiddiau rhyngwladol a chyfraniad gwahanol ddiwylliannau at fathemateg gyfoes. Bydd trafod gwaith mathemategwyr blaenllaw o wanhaol wledydd dros y canrifoedd yn helpu myfyrwyr i ddeall bod mathemateg yn iaith gyffredinol sydd wedi datblygu ar draws diwylliannau mewn ffordd gyd-ddibynnol. Gall dadansoddi data sy'n ymwneud â lledaeniad AIDS mewn gwledydd gwahanol fod yn ganolbwynt ar gyfer llawer o waith mewn ystadegaeth a graffiau, gan gynnig cyfleoedd i'r myfyrwyr fodelu data o fywyd go iawn, damcaniaethu a chymharu cyfradd y cynnydd, ac astudio unrhyw gyfatebiaeth â'r cyfraddau geni, er enghraifft.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn….
## IEITHOEDD TRAMOR MODERN

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Drwy astudio ieithoedd tramor modern, mae'r disgyblion yn darganfod bod pobl mewn rhannau eraill o'r byd yn defnyddio seiniau, geiriau a phatrymau iaith sy'n wahanol i Gymraeg a Saesneg. Mae'r disgyblion hefyd yn meithrin dealltwraieth o wledydd a chymunedau sy'n siarad yr iaith darged.

Mae'r disgyblion yn ennill gwybodaeth, gwerthoedd a medrau sy'n berthnasol i Gysyniad Allweddol **Amrywiaeth** a llawer o'r **Cysyniadau Allweddol eraill**:

**Gwybodaeth:** gwybod bod pobl y byd yn siarad amryw o ieithoedd a bod ganddynt wahanol ffyrdd o fyw a safbwyntiau

**Gwerthoedd**: parchu a gwerthfawrogi ieithoedd pobl eraill, eu ffyrdd o fyw a'u safbwyntiau

**Medrau**: y gallu i siarad iaith arall ac addasu at ffyrdd eraill o fyw

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn ieithoedd modern tramor mae'r disgyblion yn dysgu:

**Cymryd rhan mewn sefyllfaoedd real (neu ddychmygus) sy'n defnyddio gwledydd eraill fel cyd-destun** i godi'r iaith neu i'w hymarfer. Er enghraifft, gall iaith allweddol am y cartref gael ei dysgu a'i hymarfer yng nghyd-destun siarad am gartrefi mewn gwledydd eraill (e.e. mewn Sbaeneg, gallai'r disgyblion siarad am gartref sianti ym Mecsico).

**Deall** y ffordd o fyw, y diwylliant, y bobl a'r cymunedau lle mae'r iaith yn cael ei siarad. E.e. gall Pacistan ac India gael eu cynnwys mewn gwersi Panjabi, a gallai gwersi Ffrangeg gynnwys dysgu am Ffrainc, Tunisia neu Cameroon.

**Deall materion byd-eang fel y maent yn cael eu gweld gan siaradwyr yr iaith,** er enghraifft, gall gwersi Almaeneg fod yn gyfle i edrych ar agweddau Almaenwyr at genedligrwydd a mewnfudo neu faterion amgylcheddol.

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Gall ieithoedd modern tramor gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Chwarae rôl** mewn parau, mewn grwpiau neu o flaen y dosbarth cyfan. Gall yr athrawon ddylunio profiadau chwarae rôl sy'n berthnasol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang. Er enghraifft, gallai'r disgyblion ymarfer iaith allweddol am deithio i'r ysgol drwy chwarae rôl plant mewn gwahanol wledydd sydd â mathau gwahanol o daith i'r ysgol.

**Gemau** i gael cyd-destun hwyliog i ymarfer iaith. Gallai llawer o gemau a ddefnyddir gan athrawon gae eu haddasu i fod yn berthnasol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang.

**Cysylltiadau ag ysgolion mewn gwledydd eraill** Er enghraifft, gallai'r disgyblion gael cyfleoedd i ysgrifennu (drwy'r post neu'r e-bost) at blant mewn gwledydd sy'n siarad yr iaith, er enghraifft yn Affrica neu Dde America. Gall projectau e-bost fel hyn ganolbwyntio ar faterion penodol, e.e. Hawliau Dynol neu Hawliau'r Plentyn. Gall y disgyblion rannu eu syniadau a'u profiadau ynglŷn â hawliau a chyfrifoldebau ac edrych ar y gwahaniaeth a'r tebygrwydd rhwng y gwahanol wledydd.

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU IEITHOEDD TRAMOR MODERN: LLEOLI ADF**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol, yn yr adran 'Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol' y dylid addysgu'r disgyblion i: "**ddatblygu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o wledydd a diwylliannau eraill:**<br>1. drwy weithio gyda deunyddiau dilys o wledydd neu gymunedau'r iaith darged, gan gynnwys defnyddio TGCh<br>2. drwy gyfathrebu â siaradwyr brodorol<br>3. drwy ystyried eu diwylliant neu eu diwylliannau eu hunain a'u cymharu â diwylliannau'r gwledydd a'r cymunedau ble siaredir yr iaith darged<br>4. drwy ddod i wybod am brofiadau a safbwynt pobl yn y gwledydd a'r cymunedau hyn." |
| **TGAU** | **Manyleb Enghreifftiol (2004) - Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg CBAC**<br><br>Mae "Y Byd Rhyngwladol" yn un o'r 5 'cyd-destun bras' i ddisgyblion Cyfnod Allweddol 4 eu hastudio. Mae'r fanyleb yn cynnwys 10 'topig'. Mae'r topigau canlynol yn arbennig o berthnasol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang:<br><br>**"Materion amgylcheddol**, gan gynnwys y tywydd a'r tymhorau, llygredd, ailgylchu<br><br>**Materion cymdeithasol**, gan gynnwys digartrefedd, troseddau, cyffuriau, byw'n iach, anafiadau a damweiniau, crefydd, gwleidyddiaeth<br><br>**Bywyd mewn gwledydd eraill**, gan gynnwys pobl a phersoniaethau dros y môr, materion a digwyddiadau byd-eang, sut mae pobl yn treulio'u hamser hamdden, teithio a thwristiaeth." |

| | |
|---|---|
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2004) - Ffrangeg/Almaeneg/Sbaeneg CBAC**<br><br>Mae'r fanyleb yn cynnwys 6 thopig, y mae pob un ohonynt yn berthnasol i Ddinasyddaieth Fyd-eang:<br>(a) Hamdden, twristiaeth a theithio, chwaraeon, hobïau, adloniant.<br>(b) Ysgol, Addysg Bellach, Addysg Uwch, hyfforddiant a gyrfaoedd.<br>(c) Problemau pobl ifanc, perthnasoedd, materion rhyw, cyffuriau, Aids,<br>(d) Gwledydd cyfoes yr iaith darged gan gynnwys materion cyfoes, yr UE, byd gwaith, cyflogaeth/diweithdra, mewnfudo<br>(e) Y cyfryngau, gan gynnwys papurau newydd, radio a theledu, hysbysebu, y cyfryngau newydd.<br>(f) Materion amgylcheddol, gan gynnwys ynni, cadwraeth, llygredd, cludiant.<br>(pob un i gael eu hastudio gan gyfeirio'n benodol at wledydd yr ieithoedd targed fel y bo'n briodol) |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…..

### Siarad am gynhyrchu CO2 mewn Almaeneg (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Newid Cynaliadwy

Rhowch graff neu dabl o allyriannau $CO_2$ y gwahanol wledydd i'r disgyblion. Defnyddiwch weithgaredd i ymarfer iaith allweddol megis: *wieviele Tonnen Kohlendioxyd produziert Deutschland/China? Ist das hoch, niedrig oder mittelmässig? Höher, niedriger als (Frankreich*); *die höchste/niedrigste Produktion; Wo ist die Verschmutzung am besten/ am schlimmsten* etc. Yn gysylltiedig â'r gweithgaredd hwn, adolygwch y rhifau, gwledydd a chymharu ansoddeiriau.

### Perthynas Wrdw ag ieithoedd eraill (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddibyniaeth

Estynnwch amrediad geirfa'r disgyblion drwy holi'r gyson i weld a ydynt yn gwybod cyfystyron, e.e. *daam - qimat; rishtedar - aziz; nirala - ajib-o-gharib; bantna - taqsim karna*. Ydy'r disgyblion yn gallu dweud pa eiriau sydd hefyd yn cael eu defnyddio (efallai gan ddisgyblion eraill yn yr ysgol) mewn Panjabi/Gwjerati/Hindi? Pa ffurfiau mae'r disgyblion yn credu eu bod yn tarddu o Arabeg/Perseg? Adeiladwch ar yr wybodaeth hon o gysylltiadau Wrdw ag ieithoedd eraill wrth drafod gyda'r disgyblion sut a ble y cafodd Wrdw ei datblygu.

### HIV yn yr Affrica Ffrangeg (Safon Uwch)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd

Dewiswch ddeunyddiau dilys mewn Ffrangeg am heintiad HIV mewn gwlad Ffrangeg ei hiaith yn Affrica (edrychwch ar wefan WHO http://www.who.int/en/ neu chwiliwch am erthygl mewn cylchgrawn megis *Jeune Afrique*). Darllenwch y testun gyda'r myfyrwyr ac wedyn arweiniwch drafodaeth grŵp, gan ymarfer iaith megis: *centaines/milliers/millions (de séropositifs/malades*); *disponibilité*/*coût des préservatifs/médicaments; coutumes, moeurs et croyances; milieu urbain/rural; défis, échecs, réussites (du gouvernement, de l'ONU)* etc.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… CERDDORIAETH

**Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol**

Mewn cerddoriaeth, mae’r disgyblion yn perfformio, yn cyfansoddi ac yn gwerthuso. Mae gan gerddoriaeth y potensial gorau i gyfrannu at Ddinasyddiaeth Fyd-eang os yw’r athrawon yn cynllunio deiet neu repertoire cyfoethog o gerddoriaeth o ledled y byd. Lle bo’n briodol, mae’r disgyblion yn cysylltu’r gerddoriaeth â’i chefndir cymdeithasol, hanesyddol a/neu ddiwylliannol.

Gall y disgyblion ennill gwybodaeth, medrau a gwerthoedd sy’n berthnasol i **Gysyniadau Allweddol Cyd-ddibyniaeth**, **Amrywiaeth**, **Ansawdd Bywyd** a **Gwerthoedd a Chanfyddiadau.**

**Gwybodaeth:** perfformio a gwrando ar gerddoriaeth o wahanol genres ac arddulliau, o wahanol gyfnodau a diwylliannau, wedi’i chyfansoddi at wahanol gyfryngau ac at wahanol ddibenion

**Gwerthoedd:** deall bod cerddoriaeth yn cael effaith ar bobl, parchu amrywiaeth (a thebygrwydd) cerddoriaeth ar draws diwylliannau a thraddodiadau

**Medrau:** y gallu i berfformio, cyfansoddi a gwerthuso cerddoriaeth a’i chysylltu, lle bo’n briodol, â’i chefndir cymdeithasol, hanesyddol a/neu ddiwylliannol

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn cerddoriaeth mae’r disgyblion yn dysgu:

**Perfformio a gwrando ar gerddoriaeth Cymru**. Er enghraifft, drwy ddysgu caneuon gwerin Cymru, mae’r disgyblion yn dod yn ymwybodol o draddodiad llafar y gân werin sy’n gyffredin mewn llawer rhan o’r byd**.**

**Perfformio a gwrando ar gerddoriaeth o wahanol ddiwylliannau**. Drwy weithgareddau ymarferol, mae’r disgyblion yn edrych ar greadigedd ac amrywiaeth cerddoriaeth y byd, e.e. gamelan o Indonesia; pibau De America; raga o India; drymiau o Affrica.

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Mae cerddoriaeth yn gallu cynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Chwarae offerynnau, graddfeydd a rhythmau o bedwar ban y byd.** Gall hyn gynnwys perfformio neu chwarae’n fyrfyfyr mewn gwanhaol arddulliau. (Oes modd ail-greu ‘teimlad’ cerddoriaeth Sitar ar gitâr?  Pam/pam lai?)

**Myfyrio ar sut mae cerddoriaeth yn symud pobl ac yn ysgogi ymateb.** Er enghraifft, ystyried pam mae rhai gwledydd yn ceisio gwahardd cerddoriaeth boblogaidd y Gorllewin; myfyrio ar ymateb y disgyblion eu hunain i gerddoriaeth o draddodiadau anghyfarwydd.

**Parhad…**

| | |
|---|---|
| **Edrych ar wahanol agweddau ar gerddoriaeth boblogaidd.** Er enghraifft, drwy ganu a chwarae reggae a'r felan, mae'r disgyblion yn edrych ar sut mae cerddoriaeth Affro-Caribïaidd wedi cyfrannu at roc a phop, a sut mae roc a phop wedi datblygu mewn gwahanol gyd-destunau cymdeithasol ac ethnig (e.e. Bhangra). | **Mynychu cyngherddau a datganiadau cerddoriaeth o bob rhan o'r byd.** Gall ysgolion fanteisio ar ddigwyddiadau lleol (e.e. yr Eisteddfod Gydwladol) neu wahodd cerddorion neu fandiau (e.e. myfyrwyr tramor o brifysgol leol) i ymweld. |

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU CERDDORIAETH: LLEOLI ADF**

**Cyfnod Allweddol 3**

Mae'r **Rhaglen Astudio** yn pennu y dylai'r repertoire a ddewisir ar gyfer perfformio a gwrando:

"cynnwys enghreifftiau a gymerwyd o'r traddodiad 'clasurol' Ewropeaidd o'i wreiddiau cynharaf hyd y presennol, cerddoriaeth werin a phoblogaidd, cerddoriaeth Cymru a thraddodiadau a diwylliannau cerddorol eraill."

Dylai'r disgyblion gael eu haddysgu:

- **Wrth berfformio**:
  - i chwarae ystod eang o offerynnau
- **Wrth gyfansoddi**
  - i gyfansoddi a threfnu cerddoriaeth mewn ymateb i ystod eang o symbyliadau
- **Wrth werthuso**
  - i wrando'n astud ac i ddadansoddi cerddoriaeth yn feirniadol, gan ddangos dealltwriaeth o arddull a'r gallu i'w chysylltu, lle bo'n briodol, â'i chefndir cymdeithasol, hanesyddol a/neu ddiwylliannol
- O fewn yr **elfennau cerddorol**, mae'r enghreifftiau sy'n berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys:
  - amrywiol raddau a moddau; rhythm; ansawdd y sain a gynhyrchir gan ddefnyddio lleisiau, offerynnau a ffynonellau eraill mewn amrywiaeth o ffyrdd; dosbarthu seiniau lleisiol a/neu offerynnol

| | |
|---|---|
| **TGAU** | **Manyleb Enghreifftiol (2003) – Cerddoriaeth TGAU Edexcel**<br>Mae'r fanyleb yn cydnabod ein bod yn byw mewn cyfnod lle ceir amrywiaeth ddiwylliannol, ac mae'r meysydd astudio yn cwmpasu amrywiaeth eang o gerddoriaeth: cerddoriaeth glasurol, cerddoriaeth byd-eang a cherddoriaeth boblogaidd.<br><br>**Meysydd Astudio** a all gael eu cysylltu yn arbennig â Chysyniadau Allweddol Amrywiaeth a/neu Gyd-ddibyniaeth yw:<br>• **Maes Astudio 3/ Cân boblogaidd yn ei chyd-destun:**<br>  - y felan, reggae, etc<br>• **Maes Astudio 4/ Rhythmau, graddfeydd a moddau mewn cerddoriaeth o gwmpas y byd:**<br>  - cerddoriaeth gamelan, raga o India, drymiau o Affrica, cerddoriaeth sy’n dwyn ynghyd o leiaf ddau ddiwylliant gwahanol<br>Mae **Papur 3 (Gwrando a gwerthuso)** yn gofyn bod y disgyblion yn deall “sut a pham mae arddulliau a thraddodiadau cerddorol yn newid mewn gwahanol gyfnodau a lleoedd”<br>Mae’r **eirfa gerddorol** sy’n berthnasol i Ddinasyddiaeth Fyd-eang yn cynnwys:<br>• Traw: slendro a pelog (gamelan); raga (India)<br>• Ansawdd: sitar, tambura (India); gong, rebab (gamelan); djembe (Affrica)<br>• Arddull: Bhangra, ska |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol (2003) – UG/Safon Uwch Cerddoriaeth Edexcel**<br><br>Mae’r **Meysydd Astudio** ar gyfer y fanyleb hon yn cynnwys:<br>- Cerddoriaeth y byd (gan gynnwys Gogledd India; Bali a Java; y Caribî; gwerin Celtaidd; drymio o Affrica a salsa)<br>- cerddoriaeth boblogaidd a jazz<br><br>Mae’r **topigau cyfansoddi** a ragnodir i’r myfyrwyr yn cynnwys:<br>- Ymdoddiadau<br>- Cerddoriaeth i Ffilm a’r Teledu |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Dod i adnabod 'cerddoriaeth y byd' (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Ansawdd Bywyd

Gosodwch dasg lle mae'r disgyblion yn gwrando ar fath o 'gerddoriaeth byd' ac yn ymchwilio iddo, wedyn perfformio a/neu gyfansoddi cerddoriaeth yn yr un arddull. Dylai'r disgyblion gyflwyno i'r dosbarth y gerddoriaeth wreiddiol a fu'n eu hysbrydoli a'u darn cerddorol eu hunain sydd wedi'i seilio arni. Gallai'r disgyblion ddefnyddio CDs o gerddoriaeth y byd, rhaglenni radio a theledu a gwefan y BBC: www.bbc.co.uk/radio3/world/onyourstreet

### Cyd-destun reggae (TGAU)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Ansawdd Bywyd

Drwy berfformio a gwrando, mae'r disgyblion yn ymchwilio i brif nodweddion cerddoriaeth reggae, e.e. y strwythur rhythmig pedwarplyg a'r curiadau coll; defnyddio graddfa'r felan, etc. Mae reggae yn deillio o gyd-destun cymdeithasol a diwylliannol penodol. Mae'r disgyblion yn dysgu am y cysylltiadau rhwng reggae a Rastaffariaeth, ac yn dod yn ymwybodol o'r pynciau sy'n cael eu defnyddio yng ngeiriau reggae, e.e. tlodi. Anogwch y disgyblion i feddwl yn feirniadol am rai o'r stereoteipiau a'r rhagfarnau y maen nhw'n dod ar eu traws yn y geiriau hyn.

### Cerddoriaeth Ffilmiau India (Safon Uwch)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Cyd-ddibyniaeth, Gwerthoedd a Chanfyddiadau

Gallai myfyrwyr sy'n dewis *'cerddoriaeth i ffilm a'r teledu'* yn bwnc cyfansoddi ganolbwyntio ar gerddoriaeth ffilmiau Indiaidd. Wrth baratoi at eu cyfansoddiad, dylai'r myfyrwyr werthfawrogi'r cyfyngiadau go iawn ar gyfansoddwyr a osodir gan gyd-destun ffilmiau Bollywood (e.e. chwaeth cynulleidfaoedd India; rôl cerddoriaeth wrth farchnata ffilmiau, etc.). Dylai'r myfyrwyr werthfawrogi sut mae cerddorion, o fewn y cyfyngiadau hyn, yn arloesi'n eang ac yn toddi gwahanol arddulliau cerddorol i'w gilydd. (Mae cerddoriaeth ffilm India yn cymryd elfennau o gerddoriaeth werin India, ghazals, jazz y Gorllewin, rap, disgo, etc.). Yn sgil eu hymchwil, dylai'r myfyrwyr gyfansoddi cerddoriaeth sy'n addas ar gyfer darn o ffilm Indiaidd.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn:
## ADDYSG BERSONOL A CHYMDEITHASOL

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Bellach, mae'n ofynnol i ysgolion yng Nghymru ddarparu Addysg Bersonol a Chymdeithasol i bob disgybl cofrestredig o oedran ysgol gorfodol. Dylai'r ysgolion seilio eu darpariaeth ar y Fframwaith Addysg Bersonol a Chymdeithasol a gyhoeddwyd gan ACCAC yn 2000.

Mae Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn ofyniad cyffredin sydd i'w weld ym mhob pwnc yn y cwricwlwm cenedlaethol.Gall y disgyblion anelu at gael y canlyniadau dysgu isod, mewn perthynas ag Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang, nid mewn 'dosbarthiadau ABCh' yn unig ond ym mhob pwnc - fel y nodwyd mewn man arall ar y Map hwn o'r Cwricwlwm.

Mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth, medrau a gwerthoedd sy'n berthnasol i nifer o **Gysyniadau Allweddol** fel **Cyd-ddibyniaeth, Newid Cynaliadwy, Ansawdd Bywyd, Amrywiaeth, Anghenion a Hawliau ac Ansicrwydd a Rhagofalwch**.

**Gwybodaeth:** dealltwriaeth am anghenion a hawliau dynol sy'n gyffredin i bawb

**Gwerthoedd:** cydnabod bod ganddynt rôl weithgar i'w chwarae yn eu cymunedau a'r byd ehangach

**Medrau:** bod yn ymwybodol o'u barn, eu hanghenion a'u hawliau eu hunain a phobl eraill, a datblygu eu gallu i uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill.

**Defnyddio cynnwys y pwnc:**

Mewn Addysg Bersonol a Chymdeithasol, bydd y disgyblion yn dysgu:

**Agweddau a Gwerthoedd**
Dylai'r disgyblion werthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol e.e. gallai'r disgyblion baratoi prosiect 'y Byd yfory' - ysgrifenedig, neges ddigidol, arddull adrodd stori etc. Beth allaf ei wneud heddiw i newid/ddylanwadu ar yfory? Efallai y gallant ganolbwyntio ar newid dynol/diwylliannol, agweddau amgylcheddol a/neu bersonol.

**Medrau**
Dylai'r disgyblion allu mynegi eu barn a gwrando ar safbwyntiau pobl eraill e.e. sut y mae diwylliannau eraill yn parchu eraill, pwy sy'n siarad yn gyntaf - pryd a

**Defnyddio gweithgareddau dosbarth:**

Gall Addysg Bersonol a Chymdeithasol gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Trafodaethau:**
Gallai'r disgyblion baratoi trafodaeth ar bwnc sy'n bwysig iddynt (e.e. bwyd GM). Bydd angen iddynt ddatrys anghydfod a dod i gytundeb, gan ystyried gwahanol safbwyntiau.

**Chwarae rôl:**
Gallai'r disgyblion ddychmygu eu bod yn symud i wlad arall. Gallant fod mewn amgylchiadau gwahanol e.e. person sy'n gorfod ymfudo oherwydd sefyllfa wleidyddol/gymdeithasol; ymfudwr economaidd; neu at ddibenion addysg. Beth fyddai'r gwahaniaethau a pham?

**Parhad…**

| | |
|---|---|
| pham? Sut y mae rheolau/arferion gwahanol yn dylanwadu ar y ffyrdd o gyfathrebu?<br><br>**Gwybodaeth a Dealltwriaeth**<br>Dylai'r disgyblion fod yn ymwybodol o faterion cyfoes a'r amgylchedd e.e. Gallai'r disgyblion gasglu gwybodaeth, negeseuon o'r wasg a chwilio am ystrydebau a rhagfarn. Pam y mae'r pethau hyn yn bodoli? Sut y gallwn fynd i'r afael â nhw? | **Gweithgareddau allgwricwlar:**<br>Yn ystod y diwrnod gweithgareddau ABCh, gallai'r disgyblion drafod beth y maent wedi'i ddysgu mewn pynciau eraill am Ddinasyddiaeth Fyd-eang. Beth y dylid ei newid yn eu hysgol, eu cartref a'u cymuned i adlewyrchu a chyfrannu at y Cysyniadau Allweddol? |

**Mae'r Canlyniadau Dysgu o Fframwaith ACCAC sy'n arbennig o berthnasol i Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang wedi'u nodi isod:**

**Cyfnod Allweddol 3/4**

**Agweddau a gwerthoedd:**

- Ystyried a pharchu pobl eraill a'u heiddio a bod yn sensitif i'w teimladau.
- Parchu eu hunain ac eraill.
- Gwerthfawrogi amrywiaeth ddiwylliannol a chyfle cyfartal a pharchu urddas pawb.
- Bod yn ddisgybledig a chymryd cyfrifoldeb am eu gweithrediadau a'u penderfyniadau.
- Cael eu cyffwrdd gan anghyfiawnder, camfanteisio a phobl sydd wedi'u hamddifadu o'u hawliau dynol.
- Datblygu ymdeimlad o gyfrifoldeb personol am yr amgylchedd a phryder am ansawdd bywyd ar hyn o bryd ac yn y dyfodol.
- Ymdeimlad o gyfrifoldeb personol am yr amgylchedd ac ymrwymo i fyw ac ymddwyn yn gynaliadwy (CA4).

**Medrau:**

- Cyfleu teimladau a barn yn hyderus a sefyll eu tir yn argyhoeddedig.
- Gwerthuso'n feirniadol safbwyntiau pobl eraill a negeseuon gan y cyfryngau.
- Gwerthfawrogi, ystyried a gwerthuso'n feirniadol safbwynt person arall. (CA4)
- Uniaethu â phrofiadau a theimladau pobl eraill.
- Defnyddio amrywiaeth o strategaethau i ddatrys anghydfod.

**Parhad…**

- Gwneud penderfyniadau moesol a datrys materion a chyfyn-gyngor moesol.
- Gwneud penderfyniadau rhesymegol.
- Cymryd rhan mewn trafodaethau a phleidleisio ar faterion.

**Gwybodaeth a dealltwriaeth:**

**Agwedd Gymdeithasol**

- Deall gwahaniaethau diwylliannol a chydnabod rhagfarn ac ystrydebau.
- Cydnabod a gwybod sut i herio rhagfarn ac ystrydebau. (CA4)

**Agwedd Gymunedol**

- Deall natur cymunedau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol o ran amrywiaeth ddiwylliannol, cyfiawnder, cyfraith a threfn a chyd-ddibyniaeth.
- Gwybod sut y mae systemau democrataidd yn gweithio a deall y gall dinasyddion unigol, barn y cyhoedd, grwpiau lobïo a'r cyfryngau gyfrannu atynt a dylanwadu ac effeithio arnynt. (CA4)
- Bod ag ymwybyddiaeth fyd-eang sy'n datblygu am faterion a digwyddiadau cyfoes gan gynnwys hawliau dynol a datblygu cynaliadwy. (CA4)

**Agwedd Emosiynol**

- Gwybod sut i ddatrys anghydfod a dod i gytundeb.

**Agwedd Ysbrydol**

- Ymwybodol o'u cymeriad, eu cryfderau a'u gwendidau.
- Ymwybodol o'u credoau a'u gwerthoedd yng nghyd-destun y rhai yn y gymdeithas a'r rhai a gaiff ei portreadu gan y wasg.
- Gwybod sut y mae eu credoau a'u gwerthoedd yn effeithio ar eu hunaniaeth a'u ffordd o fyw. (CA4)

**Agwedd Foesol**

- Cydnabod materion a chyfyng-gyngor moesol mewn bywyd go iawn.
- Gwybod beth sy'n dda ac yn ddrwg a deall pam.
- Ymwybodol o'r ffactorau sy'n gysylltiedig â phenderfyniadau moesol. (CA4)
- Gallu nodi set o werthoedd ac egwyddorion i gadw atynt. (CA4)

**Parhad…**

**Agwedd Alwedigaethol**

- Deall amrywiaeth o faterion economaidd a diwydiannol sy'n gysylltiedig â'u rôl fel defnyddwyr a darparwyr y dyfodol a'u cyfrifoldebau o ran materion ariannol personol. (CA4)

**Agwedd Amgylcheddol**

- Deall bod systemau byd-eang yn dibynnu ar eu gilydd a deall effaith prosesau naturiol a datblygiadau dynol.
- Deall materion allweddol fel datblygu cynaliadwy, gan gynnwys y camau a allai wella ein hansawdd bywyd nawr heb beri niwed i'r blaned yn y dyfodol.
- Gwybod am y prif faterion byd-eang sy'n fygythiad i'r amgylchedd. (CA4)
- Gwybod sut i fyw ac ymddwyn yn gynaliadwy a sut i gyfrannu at benderfyniadau ar y cyd i fyw ac ymddwyn yn gynaliadwy. (CA4)

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

**'Hawliau a systemau pleidleisio'**

**Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth, Anghenion a Hawliau**

Gall disgyblion sy'n astudio sut y mae systemau democrataidd yn gweithio a materion sy'n gysylltiedig â democratiaeth, fel pleidleisio, ystyried pam y mae cyfranogiad gwleidyddol yn bwysig, pam a sut y mae peidio â chael yr hawliau hyn yn effeithio ar unigolion a chymdeithasau. Gall y disgyblion ystyried sut y cafodd menywod neu leiafrifoedd ethnig, er enghraifft, eu heithrio o'r system a pham. Efallai gall y disgyblion drafod datblygiad y bleidlais i fenywod a hawliau menywod i bleidleisio a sefyll mewn etholiad, trwy gymharu gwahanol wledydd (e.e. Kyrgyzstan ers 1918 a'r Swistir ers 1971). Hefyd, gallant ystyried agweddau at leiafrifoedd ethnig a'u hawl i gael dinasyddiaeth a phleidlais yn Slofenia neu Latfia er enghraifft - beth yw'r goblygiadau i ddemocratiaeth a hawliau dynol?

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…
## ADDYSG GORFFOROL

**Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol**

Mae astudio addysg gorfforol yn cynnig cyfle i'r disgyblion ddod yn gyfarwydd â mathau gwahanol o weithgarwch corfforol, chwaraeon a dawnsfeydd sy'n boblogaidd mewn gwledydd eraill, a sut mae cyd-destunau diwylliannol, cymdeithasol a hanesyddol yn effeithio ar y rhain.

Mae'r disgyblion yn ennill gwybodaeth, medrau a gwerthoedd sy'n berthnasol i **Gysyniadau Allweddol Cyd-ddibyniaeth**, **Amrywiaeth** a **Gwerthoedd a Chanfyddiadau.**

**Gwybodaeth:** am wahanol weithgareddau, campau a dawnsfeydd o wledydd eraill, a beth yw eu rôl a'u harwyddocâd mewn gwahanol ddiwylliannau

**Gwerthoedd:** ymrwymiad i ffordd o fyw weithgar, fel dinesydd mewn cymdeithas ddatblygedig, 'oludlawn'

**Medrau:** medrau a thechnegau corfforol – sy'n gallu croesi ffiniau diwylliant neu ffiniau lle

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn addysg gorfforol mae'r disgyblion yn dysgu:

**Cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol a gweld sut mae eu cyd-destun yn effeithio ar y rhain**. E.e. chwarae campau'r 'gaeaf' a champau'r 'haf' ac ystyried sut mae hinsawdd yn effeithio ar eu poblogrwydd byd-eang; perfformio dawnsfeydd o wahanol ddiwylliannau a lleoedd.

**Deall arwyddocâd diwylliannol a cymdeithasol chwaraeon.** Gall y disgyblion gydnabod mor ddylanwadol y gall chwaraeon fod a sut y gallant helpu i greu hunaniaeth genedlaethol. Gall enghreifftiau byd-eang gael eu cyflwyno mewn perthynas â gweithgareddau addysg gorfforol y disgyblion eu hunain, e.e. rhedeg (Kenya, Morocco); criced (De Asia, India'r Gorllewin). Gwneud cysylltiadau a chymariaethau rhwng chwaraeon yng Nghymru a'r rhai mewn gwledydd eraill e.e. wrth groesawu tîm chwaraeon o ysgol mewn gwlad dramor.

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Gall addysg gorfforol gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Paratoi a pherfformio dawnsfeydd o wledydd a diwylliannau eraill.** Gall y disgyblion ehangu eu gwybodaeth o wahanol fathau o ddawnsfeydd o ddiwylliannau eraill e.e. Thai, Bhangra, Masai a chwilio am debygrwydd a chyfatebiaethau.

**Cymryd rhan mewn amrywiol gampau a gemau o wledydd eraill.** Gall y disgyblion geisio chwarae gemau sy'n boblogaidd neu a gafodd eu dyfeisio mewn gwledydd eraill, e.e. lacrós, pêl-droed Americanaidd, pêl-law.

**Trefnu Diwrnod neu 'Ŵyl' Chwaraeon** lle gall y disgyblion gymryd rhan mewn 'gemau rhyngwladol', cyflwyno amrywiaeth o ddawnsfeydd ac yn unig hybu ffyrdd iachach o fyw ond hefyd mynd i'r afael â materion allgáu mewn chwaraeon ar sail rhyw, hil, crefydd neu anabledd.

**CWRICWLWM A CHMWYSTERAU ADDYSG GORFFOROL: LLEOLI ADF**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Y **Rhaglen Astudio**:<br><br>Mae’r meysydd gweithgarwch a all fod yn berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys:<br><br>• Yr adran ‘**Dawns**’<br>Dylid addysgu’r disgyblion am ddawnsiau gosod o wahanol draddodiadau, amseroedd a mannau,<br><br>• Yr Adran ‘Gweithgareddau Awyr Agored ac Antur:<br>Dylai’r disgyblion gael cyfleoedd i ysgwyddo peth cyfrifoldeb drostynt eu hunain, dros eraill a’r amgylchedd. |
| **Cyfnod Allweddol 4** | Mae’r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol cynorthwyo’r disgyblion:<br><br>“Trwy weithgaredd corfforol … i ennill hyder, hunan-barch, a pharch at eraill”<br><br>Mae’r meysydd gweithgarwch a all fod yn berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang yn cynnwys:<br><br>• Yr adran ‘**Dawns**’<br>Dylid addysgu’r disgyblion am ddawnsiau wedi eu dewis o blith ffurfiau dawns diwylliannol gwahanol, e.e. dawnsfeydd gwerin neu gymdeithasol o wledydd eraill megis Cynfrodorion Awstralia, dawns llewod Fietnam, Thai, Masai |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol - Safon Uwch Addysg Gorfforol CBAC**<br><br>• Mae’r fanyleb hon yn annog yr ymgeiswyr:<br>- i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o gyd-destunau hanesyddol, cymdeithasol, diwylliannol a moesol sy’n rhoi ystyr i gyfranogiad a pherfformiad mewn gweithgaredd corfforol.<br>- i ddeall darpariaeth leol, ranbarthol a chenedlaethol ar gyfer cyfranogiad mewn gweithgaredd corfforol yng nghyd-destun tueddiadau byd-eang.<br><br>• Modiwlau sy’n arbennig o berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang:<br>- **PE3: Cyfranogiad a Pherfformiad mewn Gweithgaredd Corfforol: Materion Hanesyddol, Cymdeithasol, Diwylliannol a Moesol.**<br>Mae pob un o’r 11 adran yn gwbl berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang, gyda phwyslais ar ddeall y presennol ar sail astudiaeth o’r gorffennol; arbenigrwydd disgrifiadau hanesyddol a diwylliannol; prosesau cymdeithasol a |

diwylliannol; materion dosbarth, rhyw a hil; y gwerthoedd sy'n sail i iechyd y genedl; mynediad i chwaraeon a pherfformiadau elite; y gwersi a ddysgir o drefniadaeth chwaraeon byd-eang.

- **PE4: Ymarfer, Iechyd a Ffitrwydd**
  penderfynyddion statws iechyd; materion ffordd o fyw; rôl deiet mewn ffordd iach o fyw; y gymdeithas yn hybu delweddau o gorff iach mewn diwylliant defnyddwyr; dewisiadau gydol oes

- **PE6: Cyfranogiad mewn Gweithgaredd Corfforol: Meddwl ar Raddfa Fyd-eang, Gweithredu ar Raddfa Leol**
  Mae pob un o'r 8 adran yn gwbl berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang gan gynnwys meddwl yn fyd-eang; diwylliannau yn cynnig cyfleoedd i gymryd rhan yn deg ac i ragori; amrywiaeth cyfleoedd; astudiaethau achos mewn cyfranogi gan gynnwys rhai o'r DU, Ffrainc, Sbaen, Yr Almaen, Yr Eidal, America, Awstralia, Ciwba, Asia, Affrica; effaith cystadlaethau byd-eang; sut y gall materion byd-eang gynnig lle ar gyfer trawsffurfiad lleol

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Gemau a champau Cynfrodorion Awstralia

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiaeth, Gwerthoedd a Chanfyddiadau (Cyfnod Allweddol 3)

Fel rhan o ddetholiad o bynciau Addysg Gorfforol, darparwch sesiynau sy'n cynnwys y disgyblion mewn gemau a champau Cynfrodorion Awstralia. Gallai'r disgyblion helpu hefyd i baratoi'r amrywiaeth o offer y mae eu hangen i berfformio'r gemau. Gallai'r gemau gynnwys dawnsio â chylch, lahal (gêm â ffyn) neu gori (bowlio peli neu gêm disgiau). Ceisiwch sicrhau bod y disgyblion nid yn unig yn gweld ac yn arbrofi â gemau o ddiwylliannau'r Cynfrodorion, ond eu bod hefyd yn sicrhau deilliannau dysgu cadarnhaol o ran deall a gwerthfawrogi 'gwahaniaeth', amrywiaeth a natur amrywiol gweithgareddau chwaraeon byd-eang.

### 'Chwaraeon – rhywbeth i bawb?'

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a chanfyddiadau, Ansawdd bywyd (Cyfnod Allweddol 4)

Cynhwyswch y disgyblion mewn cynllunio a pherfformio gweithgaredd cydweithredol lle mae cyfranogiad a pherfformiad pawb yn cyfrif (e.e. cylched, pentathlon tîm etc.). Gwnewch yn siŵr fod y disgyblion yn dadansoddi eu perfformiad eu hunain ac yn helpu ei gilydd i gymryd rhan. Gan adeiladu ar y gweithgaredd hwn, gofynnwch i'r disgyblion drafod sut mae gwahanol weithgareddau yn effeithio ar rai grwpiau yn y gymdeithas neu'n eu gosod o dan anfantais - er enghraifft menywod, pobl anabl, pobl o rai cefndiroedd diwylliannol. I ba raddau y gallwn ni ddweud bod y Gemau Paralympaidd, y Gemau Hoyw etc. yn dangos bod chwaraeon ar y lefel fyd-eang yn wirioneddol gynhwysol?

### 'Trais a Chwaraeon – beth yw'r berthynas?'

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Anghenion a Hawliau (Safon Uwch)

Fel aseiniad ymchwil, gofynnwch i'r myfyrwyr ddwyn ynghyd wybodaeth ym maes trais mewn chwaraeon a rôl chwaraeon mewn atal troseddau a thrais. Wedyn gofynnwch i'r myfyrwyr drafod y materion moesegol sy'n codi lle maen nhw'n gweld terfynau'r hyn sy'n dderbyniol a'r hyn nad yw'n dderbyniol. A yw'r trais o fewn y rheolau yn golygu bod rhai campau'n foesol annerbyniol? Sut gall chwaraeon a gwanhaol fathau o weithgarwch corfforol gryfhau cymunedau drwy ddod â phobl at ei gilydd, atal allgáu cymdeithasol a chael eu defnyddio fel dewis cadarnhaol yn lle ymddygiad gwrthgymdeithasol? Archwiliwch a thrafodwch fentrau ac ymgyrchoedd fel 'Pêl-droed dros Heddwch' yng Ngholombia *neu* raglen 'Dreams & Teams' y Cyngor Prydeinig *neu* ymgyrch 'Show Racism the Red Card' ym Mhrydain *NEU* gyfres griced Pacistan *v* India yn 2004 ar ôl 15 mlynedd fel proses o gymodi ac ailadeiladu cysylltiadau rhwng y ddwy wlad.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…
## ADDYSG GREFYDDOL

**Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol**
Mewn Addysg Grefyddol, mae'r disgyblion yn datblygu eu medrau mewn gwneud cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaeth ac arferion er mwyn deall dylanwad crefydd ar fywydau unigolion, cymunedau a'r gymdeithas. Dylent ymchwilio i gwestiynau sylfaenol sy'n effeithio ar y ddynoliaeth i gyd a chael cyfleoedd i edrych ar eu safbwynt nhw eu hunain a safbwynt pobl eraill ar y rhain a materion byd-eang eraill.

Mae'r disgyblion yn ennill gwybodaeth, medrau a gwerthoedd sy'n berthnasol i lawer o'r **Cysyniadau Allweddol**, gan gynnwys **Amrywiaeth, Ansawdd Bywyd** a **Gwerthoedd a Chanfyddiadau**:

**Gwybodaeth:** o ddylanwad crefydd ar fywydau unigolion, cymunedau a'r gymdeithas ac o safbwyntiau crefyddol sy'n ymwneud â chwestiynau sylfaenol

**Gwerthoedd:** parchu amrywiaeth crefyddol a chydnabod a chloriannu amrywiaeth o brofiadau crefyddol ac ysbrydol a phenderfyniadau moesol

**Medrau:** edrych ar gwestiynau sylfaenol sy'n effeithio ar y ddynoliaeth i gyd a gofyn cwestiynau pendant am grefydd a/neu faterion moesol o safbwynt crefyddau penodol

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn addysg grefyddol mae'r disgyblion:

**Yn astudio credoau, dysgeidiaeth ac arferion** Cristnogaeth a'r crefyddau eraill sy'n cynnig cyfleoedd i ystyried sut mae unigolion a chymunedau'n mynegi ymrwymiad, hunaniaeth a'r ymdeimlad o berthyn i grefydd. E.e. cymharu arddegyn Cristnogol lleol ac arddegyn Cristnogol yn Ne America neu Affrica neu arddegyn Mwslimaidd lleol â Mwslim o Saudi Arabia.

**Yn ystyried cwestiynau sylfaenol**, megis anghyfiawnder ac ecsbloetio o bersbectif crefydd benodol/crefyddau penodol ac o safbwynt y disgyblion eu hunain. E.e. cyfranogiad yr eglwysi yn ymgyrchoedd Jiwbilî i leihau dyledion y gwledydd sy'n datblygu.

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Mae addysg grefyddol yn cynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Defnyddio amrywiaeth o ffynonellau gwybodus (crefyddol) i ddechrau dod i gasgliadau rhesymedig am gwestiynau sylfaenol.** E.e. dylai'r disgyblion edrych ar sut mae crefyddau penodol yn ymateb i faterion heddwch, datrys anghydfodau, dioddefaint, cyfiawnder, rhagfarn etc.

**Defnyddio'r cysylltiadau rhwng credoau, dysgeidiaeth ac arferion i gyflwyno dealltwriaeth gydlynol o beth yw ystyr bod yn gredadun sy'n ymarfer ei ffydd.** E.e. gall y disgyblion ymweld â mannau addoli lleol ac archwilio sut mae crefydd pobl yn dylanwadu ar y ffordd y maen nhw'n ymateb i ddioddefaint yn lleol ac yn fyd-eang.

**Parhad…**

| | |
|---|---|
| **Yn ystyried pwysigrwydd cymryd cyfrifoldeb dros y byd naturiol a phethau byw, o safbwynt crefyddol a phersonol**. E.e. ar ôl archwilio ymatebion crefyddol a/neu foesol i 'Fater Byd-eang' penodol, gallai'r disgyblion ystyried hefyd sut gallai eu profiadau, eu gweithredoedd a'u barn nhw eu hunain effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau pobl eraill, e.e. prynu cynhyrchion Masnach Deg neu ddysgu pam mae arddegwyr yn treulio blwyddyn allan yn gweithio mewn gwlad sy'n datblygu. | **Gwneud addysg grefyddol yn fyw!** Mae'r disgyblion yn dysgu am bobl o gig a gwaed; pobl y mae eu credoau a'u gwerthoedd crefyddol yn eu helpu i ymateb i gwestiynau sylfaenol a materion moesol anodd a phobl sy'n chwilio am ystyr yn eu bywydau. Drwy ymchwil debyg, anogir y disgyblion i edrych ar gwestiynau anodd a materion moesol ar raddfa fyd-eang a thynnu eu casgliadau rhesymedig eu hunain yn barchus. |

**CWRICWLWM ADDYSG GREFYDDOL: LLEOLI ADF**

Mae addysg grefyddol yn rhan o'r cwricwlwm sylfaenol sy'n statudol i bob disgybl cofrestredig. Disgwylir i bob ysgol uwchradd a gynhelir (gan gynnwys ysgolion cymunedol, ysgolion sylfaen a'r mwyafrif o ysgolion gwirfoddol a reolir yng Nghymru) ddilyn gofynion eu maes llafur cytûn lleol. Er hynny, bydd ysgolion gwirfoddol a gynorthwyir a rhai ysgolion gwirfoddol a reolir yn darparu addysg grefyddol yn unol â'u gweithred ymddiriedolaeth neu â'r arferion a ddilynid cyn i'r ysgol fabwysiadu ei statws presennol a gallant gael canllawiau gan awdurdodau'r esgobaeth. Pa faes llafur bynnag y mae'r ysgol yn ei ddilyn, mae'n debyg o gynnwys agweddau ar addysg grefyddol sydd â chyfleoedd i ddarparu Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang.

Mae arweiniad ACCAC *Arweiniad ar gyfer Awdurdodau Addysg Lleol a Chynadleddau*
*Meysydd Llafur Cytûn yng Nghymru (2001*) yn cynnwys 'Fframwaith Enghreifftiol ar gyfer addysg grefyddol' sy'n enwi agweddau ar addysg grefyddol sy'n gyffredin i'r mwyafrif o'r meysydd llafur cytûn yng Nghymru. Mae'r tabl isod yn darlunio sut mae'r fframwaith enghreifftiol yn caniatáu cyfleoedd i archwilio'r Cysyniadau Allweddol

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Mewn perthynas â chredoau, dysgeidiaeth ac ymarferion Cristnogaeth a'r prif grefyddau eraill, dylid addysgu disgyblion am y canlynol:<br>• ymrwymiad, adnabyddiaeth a'r ymdeimlad o berthyn i grefydd.<br>Dylid addysgu'r disgyblion:<br>• i ddisgrifio ac esbonio'r tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng crefyddau a/neu rhwng y traddodiadau crefyddol o fewn crefydd |
| Cyd-ddibyniaeth | Dylid addysgu'r disgyblion<br>• i gloriannu sut mae gwahanol agweddau crefyddol yn dylanwadu ar fywydau unigolion, cymunedau a chymdeithas |

| | |
|---|---|
| Gwerthoedd a Chanfyddiadau | Dylid addysgu'r disgyblion am y canlynol:<br>• trafodaethau cyfoes ynglŷn â sut mae crefyddau yn gweld byd natur ac yn gwerthfawrogi creaduriaid eraill<br>• sut mae credoau, teimladau, safbwyntiau a gweithrediadau pobl grefyddol yn effeithio ac yn dylanwadu ar eu bywydau<br><br>Dylid addysgu'r disgyblion i wneud y canlynol:<br>• cymhwyso ystod eang o gysyniadau crefyddol er mwyn cyflwyno dadleuon tros ac yn erbyn amrywiaeth o faterion crefyddol<br>• myfyrio ar yr anawsterau sy'n codi wrth ystyried cwestiynau sylfaenol bywyd<br>• cydnabod a chloriannu (amrywiaeth o brofiadau crefyddol ac ysbrydol) a phenderfyniadau moesol sy'n effeithio ar eu bywydau a bywydau pobl eraill. |
| Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth<br><br>Newid Cynaliadwy | Dylid addysgu'r disgyblion:<br>• sut mae crefyddau unigol yn cydnabod mor bwysig yw cymryd cyfrifoldeb dros fyd natur a phethau byw<br><br>Dylid addysgu'r disgyblion:<br>• i ystyried amrywiaeth o ymatebion i faterion crefyddol a moesol a thynnu eu casgliadau eu hunain yn seiliedig ar ddadl a thystiolaeth resymegol. |
| Ansawdd Bywyd | Dylid addysgu'r disgyblion:<br>• am gwestiynau sylfaenol anodd sy'n berthnasol i'r ddynoliaeth gyfan, a sut mae crefyddau yn ymateb i'r cwestiynau hyn. |
| Anghenion a Hawliau<br><br>Ansicrwydd a Rhagofalon | Dylid addysgu'r disgyblion:<br>• i holi cwestiynau pendant am faterion crefyddol a/neu foesol o bersbectif crefyddau penodol ac o'u persbectif nhw eu hunain. |
| Datrys anghydfodau | Dylid addysgu'r disgyblion:<br>• am sefyllfaoedd o wrthdaro a chymodi rhwng unigolion a grwpiau yn dilyn dysgeidiaethau priodol ynglŷn â chrefyddau. |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Crefydd, Cymru a'r Byd (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiaeth, Gwerthoedd a Chanfyddiadau

Mae'r disgyblion yn gwneud gwaith ymchwil yn y gymuned leol i ddysgu pam a sut mae gŵyl benodol/digwyddiad penodol yn cael eu dathlu. Gallent ymweld â man addoli lleol a siarad ag arweinwyr a chredinwyr lleol. Er enghraifft, gallent astudio'r Nadolig / Pasg; Eid ul Fitr / Eid ul Adha neu briodas Sikh. Dylai eu cwestiynau ganolbwyntio nid yn unig ar gredoau, dysgeidiaeth ac arferion y grefydd/enwad o dan sylw ond hefyd ar ymrwymiad crefyddol a dylanwad yr ŵyl/y digwyddiad ar fywydau'r credinwyr. Wedyn mae'r disgyblion yn ymchwilio i ddysgu sut mae pobl yn dathlu'r un ŵyl grefyddol/digwyddiad crefyddol, yn aml yn wahanol, mewn rhannau eraill o'r byd. (Mae enghraifft o ferch Sikh o'r DU sy'n ymweld â'r Pwnjab i fynd i briodas ar gael yn http://www.globalgang.org.uk/reallife/rooted2/benise1.html)

### Ymatebion i ddioddefaint (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Ansawdd bywyd

Defnyddiwch astudiaethau achos i annog y disgyblion i ddeall nad yw dioddefaint bob amser yn cael ei weld mewn termau negyddol iawn, ond bod pobl (grefyddol) weithiau'n gweld eu dioddefaint nhw eu hunain fel cyfle i leddfu neu i atal dioddefaint pobl eraill.
Rhannwch y disgyblion yn grwpiau i ddefnyddio'r rhyngrwyd, y llyfrgell, eitemau newyddion i ymchwilio i ddioddefaint a gweithredoedd pobl mewn gwahanol rannau o'r byd ac edrych ar wahanol werthoedd a chanfyddiadau pobl, er enghraifft:
mae Awa, 12 oed, yn siarad yn erbyn y rhyfel yn Cote d'Ivoire (Gorllewin Affrica). (Mae gan www.unicef.Org/voy/explore/education/ explore_ 223.htm fanylion am ei bywyd ac am eraill sy'n ymgyrchu dros yr hawl i gael eu haddysgu.)
Gwahoddwch y disgyblion i benderfynu ar ffordd greadigol o roi cyflwyniad grŵp ar eu canfyddiadau, e.e. drwy ddrama, celf neu PowerPoint i ddarlunio sut mae credo grefyddol wedi ysbrydoli gweithredoedd yr unigolion yr edrychwyd arnynt.

### Rosh Hashanah a Yom Kippur (ar ôl 16)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Datrys Anghydfodau

Trafodwch gyda'r disgyblion sut mae pobl Iddewig yn ystod Rosh Hashanah yn ymbaratoi ar gyfer Yom Kippur drwy ofyn am faddeuant pobl y maen nhw wedi pechu yn eu herbyn yn ystod y flwyddyn a sut maen nhw yn ystod y cyfnod hwn yn gofyn hefyd i Dduw faddau iddyn nhw. Trefnwch y disgyblion mewn grwpiau i ystyried pam mae datrys anghydfodau a maddeuant mor bwysig, o safbwynt crefyddol a phersonol. Rhannwch ddarnau mawr o bapur a chwestiynau sylfaenol gwahanol ar frig pob un, er enghraifft: *Ydy hi'n bwysig dweud sori*? *Pam*?; *Oes modd*

*datrys dadleuon? Sut*? Mae pob grŵp yn trafod pob cwestiwn, yn cytuno ac yn ysgrifennu ymateb. Mae'r dalennau'n cael eu harddangos i bawb eu gweld. Nawr gofynnir i'r grwpiau gymhwyso'r egwyddorion y maent wedi'u disgrifio at sefyllfa go iawn lle ceir gwrthdaro yn y byd, enwi pwy sy'n ymwneud â'r gwrthdaro ac awgrymu sut y gallai'r gwrthdaro gael ei ddatrys drwy lunio map meddwl 'Beth ddylai ddigwydd nesaf'.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… GWYDDONIAETH

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mae gwyddoniaeth yn datblygu dealltwriaeth y disgyblion o’r berthynas a’r gyd-ddibyniaeth gymhleth rhwng bodau dynol a’r byd o’n cwmpas.

Mae’r disgyblion yn ennill gwybodaeth, medrau a gwerthoedd sy’n berthnasol i’r mwyafrif o’r **Cysyniadau Allweddol** gan gynnwys **Cyd-ddibyniaeth**, **Dinasyddiaeth a Stiwardiaeth**, **Anghenion a Hawliau**, **Amrywiaeth**, **Ansawdd Bywyd**, **Gwerthoedd a Chanfyddiadau** a **Newid Cynaliadwy.**

**Gwybodaeth:** am bethau byw, bywyd, prosesau cemegol a ffisegol, gan gynnwys trosglwyddiadau egni, sy’n cyfansoddi bywyd ar y Ddaear (a’r tu hwnt) ac yn dylanwadu arno, gan gynnwys effeithiau’r tymor byr a’r tymor hir.

**Gwerthoedd:** gwerthfawrogi amrywiaeth a deall cyd-ddibyniaeth a’r cydgyfrifoldeb yr ydym i gyd yn ei rannu dros y byd o’n cwmpas

**Medrau:** y gallu i adnabod manteision, anfanteision a risgiau cymhwyso datblygiadau gwyddonol a’u heffeithiau ar ansawdd bywyd unigolion a'r byd o'n cwmpas. Ymwybyddiaeth o sut a pham mae penderfyniadau’n gorfod cael eu gwneud am sut i gymhwyso gwyddoniaeth, ac effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y penderfyniadau hynny.

**Defnyddio Cynnwys y Pwnc**

Mewn gwyddoniaeth mae’r disgyblion yn dysgu:

**Ystyried y galwadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyferbyniol ar ofynion ynni** gan gynnwys dibenion ystod eang o adnoddau ynni, a’r angen amdanynt, gan gydnabod bod rhai adnoddau ynni yn adnewyddadwy ac eraill yn anadnewyddadwy.

**Ystyried a chloriannu cyffredinolrwydd anghenion bodau dynol (megis bwyd, dŵr a chysgod).** Maent yn cymharu argaeledd bwyd, dŵr glân ac awyr glir/iach a defnyddiau adeiladu mewn gwahanol wledydd ac effeithiau’r hyn sydd ar gael ar fywydau pobl.

**Defnyddio Gweithgareddau Dosbarth**

Gall gwyddoniaeth gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Defnyddio medrau cyfathrebu gwyddonol** i gasglu a chyflwyno data sy’n bwydo materion datblygu e.e.

- cymharu deiet bwyd nodweddiadol yn y DU ag un mewn gwledydd eraill/gwledydd sy’n datblygu; nodi’r tebygrwydd a’r gwahaniaethau
- ymchwilio i ddatblygiad gwyddonol sydd wedi cael effaith fawr ar y byd e.e. ar raddfa fyd-eang rheolaeth fiolegol ar fosgitos er mwyn cyfyngu ar ledaeniad malaria neu ar raddfa fwy lleol fflworideiddio’r cyflenwad dŵr ar Ynys Môn,

**Parhad…**

| | |
|---|---|
| **Ystyried ystod o ddatblygiadau gwyddonol ac agweddau moesegol a moesol eu dibenion.** Maent yn dysgu y gall pobl a gwledydd ddefnyddio deilliannau rhywfaint o waith ymchwil gwyddonol at ddibenion da neu ddrwg. | **Defnyddio medrau ymchwilio** i gynnal profion dan reolaeth e.e.<br>• datblygu ffordd syml o buro dŵr ar raddfa fach<br>• profi nodweddion maethiadol y bwydydd sydd ar gael mewn rhannau gwahanol o'r byd<br><br>**Trafod a dadlau** gan ddefnyddio'u gwybodaeth a'u dealltwriaeth wyddonol i fwydo'u barn, eu gwerthoedd a'u hagweddau am faterion sy'n effeithio ar ansawdd bywydau pobl e.e.<br>• creu cynlluniau i leoli ffatri gemegau sy'n perthyn i gwmni amlwladol yn ymyl tref<br>• trafod rôl datblygiad gwyddonol e.e. mewn rhyfel biolegol, clonio, ewgeneg, difodiant rhywogaethau penodol, llygredd, neu fridio dethol er mwyn creu cnydau sy'n gallu gwrthsefyll amodau amgylcheddol amrywiol |

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU GWYDDONIAETH: LLEOLI ADF**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Mae'r **Rhaglen Astudio** yn datgan:<br><br>Dylai gwaith y disgyblion ym maes gwyddoniaeth eu galluogi i gysylltu eu gwybodaeth wyddonol a'u dealltwriaeth am gymwysiadau gwyddonol, ystyried sut y maent yn dylanwadu ar ansawdd eu bywydau, manteision ac anfanteision datblygiadau o'r fath mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Dylid rhoi cyfleoedd i'r disgyblion:<br><br>Mewn **Prosesau Bywyd a Phethau Byw**<br>• ystyried sut mae cymhwyso'n gwybodaeth o brosesau bywyd, er enghraifft mewn meddygaeth, yn dylanwadu ar ansawdd ein bywydau.<br><br>Mewn **Defnyddiau a'r Priodweddau**<br>• i berthnasu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o ddefnyddiau ac o adweithiau cemegol i ffenomena cyfarwydd ac i bethau sy'n cael eu defnyddio bob dydd.<br><br>Mewn **Prosesau Ffisegol**<br>• i berthnasu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o brosesau ffisegol i ffenomenau cyfarwydd ac i gymwysiadau, gan gynnwys pethau sy'n cael eu defnyddio bob dydd. |

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 4** | Mae'r **Rhaglen Astudio** yn datgan:<br>Dylai gwaith y disgyblion ym maes gwyddoniaeth roi cyfleoedd i'r disgyblion astudio sut caiff gwybodaeth wyddonol ei chymhwyso, ac ystyried effaith hyn ar fywydau unigolion, pethau byw eraill a'r amgylchedd.<br>Yn yr adran **Ymholiad Gwyddonol (Natur Gwyddoniaeth)**<br>• cydnabod bod dadleuon gwyddonol yn codi o ddehongliadau a phwysleisiau gwahanol ar wybodaeth<br>• ystyried y ffyrdd y mae syniadau gwyddonol yn dod o dan ddylanwad y cyd-destunau cymdeithasol, gwleidyddol a hanesyddol y maent yn datblygu ynddynt, a sut mae'r cyd-destunau hyn yn gallu effeithio ar a gaiff y syniadau eu derbyn neu beidio<br>Yn yr adran **Prosesau Bywyd a Phethau Byw**<br>• ystyried sut y gallai cymhwyso'n gwybodaeth o brosesau bywyd, er enghraifft datblygiadau mewn peiriannu genynnol, ddylanwadu ar ein bywydau. Dylent ystyried y materion cymdeithasol a'r benbleth foesegol y mae datblygiadau o'r fath yn eu codi.<br>Mewn **Defnyddiau a'u Priodweddau**<br>• cymhwyso'u gwybodaeth a'u dealltwraieth at ffenomenaa a defnyddiau cyfarwydd, ac astudio sut mae cymhwyso adweithiau cemegol yn caniatáu i ddefnyddiau newydd gael eu gweithgynhyrchu. Dylent ystyried effeithiau cadarnhaol a negyddol prosesau cemegol mewn cyd-destunau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.<br>Mewn **Prosesau Ffisegol**<br>• astudio prosesau a ffenomena ffisegol mewn ystod fawr o gyd-destunau. Dylent ystyried galwadau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol cyferbyniol ar ofynion ynni. |
| **UG/Safon Uwch** | **Manyleb Enghreifftiol – Gwyddoniaeth Safon Uwch OCR**<br>• Nodau'r Fanyleb:<br>- cydnabod gwerth a defnydd cyfrifol gwyddoniaeth yn y gymdeithas;<br>- cydnabod bod gwyddoniaeth yn ymdrech ddynol sy'n cydadweithio â materion cymdeithasol, economaidd a diwydiannol;<br>• Gwneud cyflwyniad ar bwnc cymhleth, gan ddefnyddio o leiaf un ddelwedd i ddarlunio pwyntiau cymhleth. (*Pynciau sy'n berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang*):<br>✓ amaethyddiaeth ym Mhacistan<br>✓ strwythur fforest law drofannol<br>✓ datfforestu fforestydd glaw trofannol<br>✓ dŵr yn y byd naturiol |

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Gwella'r amgylchedd – cronfa ddata ryngwladol (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd, Newid Cynaliadwy

Defnyddiwch gysylltiad Gogledd-De presennol yr ysgol (neu ffurfiwch gysylltiad newydd) yn sail ar gyfer cydweithredu i sefydlu cronfa ddata ar y rhyngrwyd o brojectau diogelu'r amgylchedd a chadw adnoddau o amgylch yr ysgol ac o amgylch ei chyd-ysgol yn y De. Gallai'r rhain fod yn brojectau y mae'r ysgol ei hun yn ymwneud â hwy, neu'n brojectau sy'n cael eu cynnal yn yr ardal. Gwnewch yn siŵr fod cofnodion y disgyblion yn y gronfa ddata yn manylu ar yr wyddoniaeth y tu ôl i bob project.

### Camymddygiad gwyddonol – trafodaeth ddosbarth (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Gwerthoedd a Chanfyddiadau, Datrys Anghydfodau

Gofynnwch i'r disgyblion baratoi ac wedyn cymryd rhan mewn trafodaeth ar y testun "*Mae'r Dosbarth hwn yn credu bod darganfyddiadau gwyddonol wedi'u camddefnyddio yn achos …*". Gall rhai o'r disgyblion fynd ati i baratoi a gwneud cyflwyniadau o balid ac yn erbyn y ddadl. Bydd disgyblion eraill yn 'ymyrryd' yn y drafodaeth, gan ofyn cwestiynau ac asesu'r atebion a roddir. Gallai'r pynciau posibl i'r drafodaeth gynnwys:
Argae'r Tri Cheunant yn Tsieina (a gwblhawyd yn 2003)
Abdul Qadeer Khan a lledaenu niwclear
Datblygu cnydau GM sy'n gwrthsefyll plâu
Achos Baltimore (David Baltimore- a enillodd Wobr Nobel ym 1975) ym maes imwnoleg.
Yn y cyflwyniadau terfynol ac ym mhleidlais y dosbarth, hoeliwch y sylw ar wahaniaethu rhwng camgymeriad syml, camymddygiad ac anghymhwysedd mewn gwyddoniaeth.

### Geneteg ddatblygedig – bygythiad neu gyfle? (Safon Uwch)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Newid Cynaliadwy, Gwerthoedd a Chanfyddiadau

Cynhwyswch y disgyblion mewn ymarfer a fyddai'n gofyn iddynt gasglu, dehongli a chyflwyno gwybodaeth wyddonol (erthyglau gwyddonol, graffiau, tablau dyddiadau etc.) ar beiriannu genynnol a mynegi genynnau. Gallai hyn arwain at drafodaeth ar glonio bodau dynol ac anifeiliaid (clonio therapiwtig hefyd) neu blanhigion GM. Rhennir y disgyblion yn ddau grŵp, y naill yn cyflwyno manteision datblygu organeddau trawsgennynol, a'r llall yn cyflwyno'r anfanteision. Bydd angen iddynt gyflwyno tystiolaeth wyddonol i ategu'r safbwynt a bod yn barod i gynnal dadl wyddonol drwy ddefnyddio iaith briodol a dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o'r broblem.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… CYMRAEG (Iaith Gyntaf)

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mewn Cymraeg, mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Mae'r disgyblion yn ystyried y cyd-destun y mae iaith yn cael ei defnyddio ynddo, yn ymateb i sylwedd ac arddull testunau ac yn trafod detholiad amrywiol o destunau llenyddol ac anllenyddol.

Y cyfraniad craidd yw'r cyfraniad at Gysyniadau Allweddol **Amrywiaeth, Ansawdd Bywyd, Anghenion a Hawliau** drwy feithrin medrau cyfathrebu'r disgyblion.

**Medrau**: cyfathrebu ar lafar, trafod a mynegi barn ar ystod eang o bynciau amlochrog, darllen ac ymateb i ystod eang o destunau llenyddol ac anllenyddol ac ysgrifennu'n ffurfiol ac yn anffurfiol ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd.

**Gwerthoedd:** ymateb yn briodol ac addasu syniadau a safbwyntiau ar sail cyfraniadau pobl eraill. Parchu safbwyntiau ac ymateb yn drugarog a sensitif. Cydnabod y gall iaith gynnwys is-destunau a gogwydd.

Mae datblygiad **gwybodaeth** y disgyblion o faterion byd-eang (ac felly gyfraniad Cymraeg at **Gysyniadau Allweddol** eraill) yn dibynnu ar y materion a'r deunyddiau a ddewisir gan yr athrawon i'w defnyddio yn y dosbarth.

**Defnyddio cynnwys y pwnc**

Yn Gymraeg bydd y disgyblion yn dysgu:

**Cymryd rhan mewn cyflwyniadau dramatig** gan gynnwys gwaith byrfyfyr a gwaith y disgyblion eu hunain a chloriannu'n feirniadol berfformiadau y maent wedi'u gwylio neu y maent wedi cymryd rhan ynddynt. Er enghraifft, gallai'r disgyblion ddatblygu drama am effaith symud swyddi canolfan alwadau o Gymru i India.

**Mynegi barn wrth ymateb i ystod o symbyliadau printiedig neu glyweledol.** Gall yr athrawon ddewis ystod o bynciau sy'n cynnig cyfleoedd i ymwneud â materion byd-eang, e.e. rhaglen ddogfen deledu megis *Taro Naw*; ymateb i gerddi fel *Y Naill Du i'r Nadolig* gan Alan Llwyd neu *E Pericoloso Sporgerzi* gan Gwyn Thomas.

**Defnyddio gweithgareddau dosbarth**

Gall Cymraeg gynnwys y disgyblion yn y canlynol:

**Trafod pynciau a dysgu mynegi eu barn, gan seilio'u safbwynt ar dystiolaeth a rhesymau.** Dylai'r disgyblion gyflwyno achos yn berswadiol, ar lafar ac ar bapur, gan ddefnyddiol dadleuon dewisol *e.e.* trafod ar lafar a oes cyfiawnhad dros gymorthdaliadau'r UE i ffermwyr Cymru, o gofio'r effaith ar amaethyddiaeth mewn gwledydd sy'n datblygu *neu* ysgrifennu llythyr at eu AS lleol ar faterion byd-eang.

**Dadansoddi a dehongli'r iaith a glywir ac a ddarllenir,** gan nodi ystyron ymhlyg, tystiolaeth, datganiadau di-sail a sut mae ffurf, arddull a dyfeisiau'n cael eu defnyddio i greu effaith. *e.e.* dadansoddi gosodiadau panelwyr *Pawb a'i Farn* am fater byd-eang; cloriannu'n

| | |
|---|---|
| **Ysgrifennu'n anffurfiol ac yn ffurfiol ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd penodol, gan amrywio ffurf, iaith a dull yr ysgrifennu ar gyfer darllenwyr gwahanol.** Gall pynciau byd-eang fod yn sail ar gyfer gwaith ysgrifenedig ffeithiol. e.e. gallai'r disgyblion ysgrifennu er mwyn perswadio, cynghori neu ddadlau, gan hoelio sylw ar gyflwyno achos a dylanwadu ar y darllenydd e.e. ysgrifennu llythyrau i berswadio mwy o drefi Cymru i droi'n drefi neu'n gymunedau Masnach Deg; paratoi taflen ar gyfer Oxfam Cymru. | feirniadol erthyglau mewn cylchgrawn am faterion byd-eang gan roi sylw i ystyron pendant ac ystyron ymhlyg, gogwydd, gwrthrychedd a chan wahaniaethu rhwng ffaith a barn.<br><br>**Mynegi profiadau personol a dychmygus mewn ymateb i ystod eang o symbyliadau.** Drwy astudio testunau ffeithiol neu lenyddiaeth, byddai'r disgyblion yn cydymdeimlo ag eraill, e.e. ysgrifennu stori fer wedi'i seilio ar ddyddiadur plentyn yn byw yn Rio neu blentyn sy'n cuddio (*Y Dyn ar y Morros* - Deunyddiau Tasg CA3 1998); *Dyddiadur Anne Frank* Gwasg Addysgol Cymru (Ail-gyhoeddwyd 1999) |

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU CYMRAEG: LLEOLI ADF**

| | |
|---|---|
| **Cyfnod Allweddol 3** | Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu'r disgyblion<br><br>**Llafaredd:**<br>• i wylio a gwrando ar ystod o symbyliadau gweledol a chlyweledol, e.e. gwrando ar araith yn cael ei thraddodi a nodi pa ddefnydd a wneir o iaith, goslef ac ystum<br>• i drafod ystod o bynciau amrywiol i wahanol bwrpasau gan ymwneud â gwahanol safbwyntiau, e.e. paratoi a chyflwyno araith i gymdeithas ddadlau'r ysgol ar faterion dinasyddiaeth fyd-eang<br>• i gymryd rhan mewn cyflwyniadau dramatig<br>• i wrando ar eraill yn ofalus ac i ddadansoddi eu gosodiadau e.e. gwrando ar ddadl ar faterion dinasyddiaeth fyd-eang ac ymateb i'r dadleuon a gyflwynwyd, gan herio gosodiadau di-sail<br>• i fynegi barn yn effeithiol<br>• gan ganolbwyntio ar bynciau a fydd yn berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang cyflwyno gwybodaeth, weithiau ar sail ymchwil, gan greu cyfraniadau estynedig lle bo'n briodol.<br><br>**Darllen:**<br>• i ddarllen a defnyddio testunau anllenyddol gan gynnwys testunau swyddogol a chyhoeddus a deunyddiau TGCh<br>• i ddehongli a thrafod testunau; i fynegi barn arnynt |

- i adnabod gogwydd neu safbwynt awdur
- i drafod cywair iaith gwahanol destunau a dod i adnabod gogwydd neu safbwynt awdur e.e. darllen nifer o lythyrau i'r wasg ar bwnc sy'n berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang.

**Ysgrifennu**:

- i gyflwyno gwybodaeth a llunio darnau cofnodol a ffeithiol
- i fynegi barn; i adeiladu dadl er mwyn perswadio
- i lunio dadl er mwyn perswadio gan adnabod yr angen am dystiolaeth a rhesymau

**Cyfnod Allweddol 4**

Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol i'r disgyblion ddatblygu ymhellach ar y medrau a ddysgwyd yng Nghyfnod Allweddol 3, gan eu cymhwyso yn y Cyfnod Allweddol hwn at bynciau a thestunau cymhleth, amlochrog a symbyliadau ymestynnol. Gallai pynciau/testunau byd-eang gael eu defnyddio.

Mae **Manyleb CBAC ar gyfer TGAU Cymraeg (2005)** yn ei gwneud yn ofynnol bod **gwaith cwrs** y disgyblion yn cynnwys darn ysgrifenedig sy'n cynnwys trafodaeth a barn ac mae'r **arholiad llafar** yn gofyn bod y disgyblion yn gwneud cyflwyniad 5 munud. Gallai'r rhain sôn am bynciau byd-eang.

**UG/Safon Uwch**

**Manyleb Enghreifftiol 2005 – Cymraeg Safon Uwch CBAC**

Mae'n ofynnol bod **gwaith cwrs** y disgyblion yn Uned Dau yn cynnwys:

- traethawd neu araith ysgrifenedig sy'n cyflwyno barn neu safbwynt, neu
- adroddiad newyddiadurol am ddigwyddiadau cyfoes

Gallai'r rhain sôn am bynciau byd-eang.

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Cysylltiadau â Phatagonia (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiaeth

Defnyddiwch Dolen Ysgolion http://www.bbc.co.uk/cymru/patagonia/links.shtml (project newydd sy'n anelu at gysylltu plant Cymraeg eu hiaith yn Chubut â phlant ysgol yng Nghymru) yn adnoddyn ar gyfer testunau anllenyddol a deunyddiau TGCh. Gall y disgyblion gasglu gwybodaeth am y Wladfa ddoe a heddiw. Gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu darnau dogfennol, ffeithiol e.e. taflen wybodaeth i ddisgyblion CA2 am y Wladfa neu ysgrifennu a pherfformio drama radio wedi'i seilio ar helyntion y gwladfawyr cynnar. I estyn hyn, gall testunau llenyddol cyfoes e.e. Bethan Gwanas, *Y Teithiwr Talog* (Gwasg Carreg Gwalch, 1998), Twm Morys ac Iwan Llwyd, *Eldorado* (Gwasg Carreg Gwalch, 1999) ynghyd â deunyddiau sy'n adlewyrchu'n treftadaeth lenyddol yn y Wladfa http://www.llgc.org.uk/lp/lp0065.htm gael eu hastudio a'u cymharu.

### Neges Ewyllys Da yr Urdd (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiaeth, Anghenion a Hawliau

Arweiniwch drafodaeth ddosbarth ar y Neges Ewyllys Da. Ym 1922, trosglwyddodd Gwilym Davies, a oedd yn flaenllaw wrth sefydlu Undeb Cymreig y Cenhedloedd Unedig ac wedyn UNESCO, y neges drwy gyfrwng Gwasanaeth Byd y BBC. Gall y disgyblion wrando ar neges flynyddol 2004, a ysgrifennwyd gan ddisgyblion o Ysgol Gyfun Llangefni mewn 12 iaith.
http://www.urdd.org/eisteddfodau/mon2004/datganiadau/mercher020604-ned.html.
Defnyddiwch thema 2004 (Masnach Deg) i symbylu trafodaeth a gwaith ysgrifenedig. Fel gweithgaredd estyn, gall y disgyblion wrando ar araith fer gan Syr Ifan ab Owen Edwards a draddodwyd ym 1929.
http://www.bbc.co.uk/cymru/cymruaryrawyr/database/urdd.shtml
Anogwch y disgyblion i sylwi ar yr iaith, y goslefu, a'r ystumiau a ddefnyddiwyd. Fel tasg ysgrifennu a thasg lafar, gofynnwch iddyn nhw ysgrifennu eu haraith eu hunain ar faterion byd-eang.

### Dyfyniad o 'Trychineb Aberfan' D. Gwenallt Jones, Cerddi Gwenallt (Gwasg Gomer 2001) (Safon Uwch)

### Cysyniad Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd, Anghenion a Hawliau

Dechreuwch drwy ddangos y clip fideo Cymraeg am y trychineb. http://www.gtj.org.uk/subjects.php?lang=cy&s=2571. Darllenwch a thrafodwch gerdd Gwenallt. Pa deimladau sy'n cael eu gollwng yn rhydd yn y bardd gan y trychineb? Trafodwch yr anghyfiawnder a deimlir gan Gwenallt yn y gerdd. Edrychwch ar y frawdoliaeth a'r cyfeillgarwch a ddatblygodd ledled y byd yn sgil Aberfan. Mae gwledydd y Trydydd Byd yn agored i drychinebau naturiol fel daeargrynfeydd,

sychdwr, llosgfynyddoedd a thirlithriadau fel Aberfan. Ydy grymoedd economaidd yn gorfodi'r tlawd i fyw mewn mannau rhad ond peryglus fel gorlifdiroedd a llethrau ansefydlog? A allai trychinebau gael eu hatal, neu o leiaf a allai'r dinistr gael ei leihau? Gallai'r tasgau ysgrifennu gynnwys ymson/atgofion goroeswr neu destun yn cynnwys trafodaeth a barn am effaith trychinebau / ecsbloetio mewn rhannau eraill o'r byd.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn… CYMRAEG (Ail Iaith)

### Deilliannau yn y Cysyniadau Allweddol

Mewn Cymraeg ail iaith, mae'r disgyblion yn datblygu gwybodaeth a medrau mewn llafaredd, darllen ac ysgrifennu. Mae'r disgyblion yn ystyried y cyd-destun y mae iaith yn cael ei defnyddio ynddo, yn ymateb i sylwedd ac arddull testunau ac yn trafod detholiad amrywiol o destunau llenyddol ac anllenyddol.

Y cyfraniad craidd yw'r cyfraniad at Gysyniadau Allweddol **Amrywiaeth, Ansawdd Bywyd, Gwerthoedd a Chanfyddiadau** gan gynnwys **Anghenion a Gwerthoedd** drwy feithrin medrau cyfathrebu'r disgyblion.

**Medrau**: sut i gyfathrebu ar lafar, trafod a mynegi barn ar ystod eang o bynciau, darllen ac ymateb i ystod eang o destunau llenyddol ac anllenyddol ac ysgrifennu'n ffurfiol ac yn anffurfiol ar gyfer ystod o gynulleidfaoedd.

**Gwerthoedd:** gwrando'n gwrtais ac yn ofalus ar eraill, gan ymateb yn briodol ac addasu syniadau a safbwyntiau ar sail cyfraniadau pobl eraill. Parchu safbwyntiau ac ymateb yn sensitif i bobl eraill.

Mae datblygiad **gwybodaeth** y disgyblion o faterion byd-eang (ac felly gyfraniad Cymraeg at **Gysyniadau Allweddol** eraill) yn dibynnu ar y materion a'r deunyddiau a ddewisir gan yr athrawon i'w defnyddio yn y dosbarth.

**Defnyddio cynnwys y pwnc**

Mewn Cymraeg Ail Iaith mae'r disgyblion:

**Yn sgwrsio gyda chymheiriaid, athrawon a phobl eraill.** *e.e.* mae'r disgyblion yn cyfeirio at wefan CILT http://www.cilt.org.uk/promoting/resources/index.htm ac yn dewis gweithgaredd fel Y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd/ Fietnamaidd neu Ddiwrnod Amrywiaeth Diwylliannol y Byd. Wedyn maen nhw'n trafod y gwahaniaethau yn y ffordd o ddathlu'r flwyddyn newydd mewn gwledydd gwahanol. Maen nhw'n cwblhau holiadur ar lafar i gael gwybod mwy am y gwahanol ddiwylliannau a gynrychiolir yn yr ysgol. Gall y canlyniadau gael eu harddangos mewn man amlwg gan ddefnyddio testun, graffeg a delweddau.

**Defnyddio gweithgareddau dosbarth**

Mewn Cymraeg Ail Iaith mae'r disgyblion:

**Yn trefnu parti dosbarth**. e.e. Wrth ddilyn Uned 5 o *Taith Iaith 1* gallai'r disgyblion drefnu parti dosbarth ar thema gwledydd y byd. Gan weithio mewn grwpiau, gallent benderfynu ar fwyd, cerddoriaeth, adloniant, gwisgoedd, addurniadau etc. sy'n cynrychioli eu dewis wlad. Mae cynrychiolydd grŵp yn rhoi adborth llafar i'r dosbarth am y penderfyniadau.

**Yn darllen er gwybodaeth ac er mwynhad** e.e. Gan ddefnyddio *Mynd i'r Ysgol yn Uganda* (Ioan Dyer) yn symbyliad mae'r disgyblion yn ysgrifennu dyddiadur dychmygus disgybl sy'n mynd i'r ysgol yn Uganda neu'n ysgrifennu llythyr at un o'r

**Darllen ystod o ddeunyddiau dychmygus.**
Dewiswch ddarnau darllen addas fel yr un ar dudalen 52 o *Taith Iaith 1* a gofynnwch i'r disgyblion e-bostio awdur y llythyr i fynegi eu barn am ysgolion yn Llydaw a chymharu eu hysgol nhw ag ysgol Philippe.

**Ysgrifennu'n anffurfiol ac yn ffurfiol ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd penodol.** Gan ddefnyddio 'Operation Christmas Child' yn fan cychwyn, mae'r disgyblion yn ymgymryd ag amrediad o dasgau gwahanol sy'n briodol at eu gallu. Gall y ddelwedd ar dudalen 47 o *Poeth* neu'r rhai ar adrannau priodol gwefannau'r BBC a Samaritan's Purse gael eu defnyddio i symbylu'r disgyblion i baratoi poster apêl, i ysgrifennu llythyrau at ysgolion lleol i ofyn iddynt gymryd rhan yn y project etc.

disgyblion yn y lluniau yn y llyfr. Maent hefyd yn cymharu eu bywyd eu hunain â bywyd plant sy'n byw yn Uganda.

**Cysylltiadau â disgyblion mewn ysgolion a lleoedd eraill**. *e.e.* gan ddilyn y gwaith ar ieithoedd a'r cyfeiriad at y Wladfa yn Uned 1 *Taith Iaith 2*, defnyddiwch rai o'r delweddau sydd ar gael ar amrediad o wefannau megis Dolen Ysgolion i gasglu gwybodaeth am y Wladfa. Wedyn gall y disgyblion gael cyfleoedd i ysgrifennu (drwy'r post neu'r e-bost) at ddisgyblion sy'n dysgu Cymraeg ym Mhatagonia. Yn eu gohebiaeth mae'r disgyblion yn canolbwyntio ar gymharu cartrefi, ysgolion, adloniant etc. yn y ddwy wlad.

**CWRICWLWM A CHYMWYSTERAU CYMRAEG AIL IAITH: LLEOLI ADF**

**Cyfnod Allweddol 3**

Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu medrau sy'n berthnasol i Ddinasyddiaeth fyd-eang i'r disgyblion:

**Llafaredd:**

- gwylio a gwrando ar ystod o symbyliadau gweledol a chlyweledol
- trafod ystod o bynciau i wahanol bwrpasau, gan ymwneud â gwahanol safbwyntiau
- mynegi barn
- ceisio, derbyn, cyflwyno a thrafod gwybodaeth o wahanol ffynonellau

**Darllen:**

- darllen a defnyddio ystod eang o destunau anllenyddol mewn ystod o ffurfiau a deunyddiau TGCh
- trafod testun a mynegi barn ar yr hyn a ddarllenwyd
- darllen ystod o ddeunydd dychmygus

**Parhad…**

**Ysgrifennu:**

- cyflwyno gwybodaeth a llunio amrywiaeth o ddarnau cofnodol a ffeithiol
- mynegi barn gan gynnig rhesymau a thystiolaeth i ategu ac amddiffyn safbwynt neu i berswadio wrth ymateb i ystod o symbyliadau printiedig, gweledol a chyfrifiadurol
- ysgrifennu'n ffurfiol ac yn anffurfiol ar gyfer ystod eang o gynulleidfaoedd
- mynegi profiadau personol a dychmygus

Mae'r gyfres *Taith Iaith* yn cynnig ystod eang o gyfleoedd i gyflwyno'r medrau iaith uchod yng nghyd-destun Dinasyddiaeth Fyd-eang. Er enghraifft, mae Uned 1 *Taith Iaith 2* yn cael ei haddysgu yng nghyd-destun thema *Ffordd o Fyw* ac mae'n annog y disgyblion i ddysgu am sut rydyn ni'n byw yng Nghymru **ac** mewn gwledydd eraill y byd, a thrafod hyn.

**Cyfnod Allweddol 4**

Mae'r **Rhaglen Astudio** yn ei gwneud yn ofynnol y dylid addysgu'r disgyblion i ddatblygu ymhellach ar y medrau a ddysgwyd yng Nghyfnod Allweddol 3. Gall pynciau/testunau byd-eang gael eu defnyddio.

Mae **Manyleb Cymraeg Ail Iaith TGAU CBAC (2005)** yn ei gwneud yn ofynnol bod **gwaith cwrs** y disgyblion yn cynnwys ystod o weithgareddau fel chwarae rôl, cyflwyniad llafar unigol, ymateb ar lafar ac mewn ysgrifen i ddarllen a thasgau ysgrifenedig. Gall tasgau fel cymharu amodau gwaith yng Nghymru a gwledydd eraill, ymateb i ddelweddau e.e. ar dudalen 107 o *Poeth* ac ymateb i gerddi e.e. *Gwareiddiad, Twyll, Oes rhaid i mi?* neu *P.G.* hefyd o *Poeth* fod yn gyfle i roi sylw i faterion dinasyddiaeth fyd-eang.

**UG/Safon Uwch**

**Manyleb Enghreifftiol 2005 - Cymraeg Ail Iaith Safon Uwch CBAC**

Bydd y farddoniaeth sy'n cael ei hastudio yn Uned 2 yn gyfle i'r ymgeiswyr drafod materion sy'n gysylltiedig â dinasyddiaeth fyd-eang, e.e.

- Mae *Mae gen i freuddwyd* yn ymdrin â materion cydraddoldeb hiliol yn Ne Affrica a breuddwyd Martin Luther King
- Mae *Y ffatri'n cau* yn cynnig cyfleoedd i drafod ansawdd bywyd yn y wlad hon ac yn y trydydd byd.

## Syniadau i'ch rhoi ar ben y ffordd…

### Adeiladau (Cyfnod Allweddol 3)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd, Amrywiaeth, Anghenion a Hawliau

Cyflwynwch y disgyblion i'r llyfrau *Adeiladau* o gyfres *Mater o Ffaith*. Dewiswch y llyfr sy'n targedu lefel iaith eich disgyblion. Gallai'r adrannau ar *Byw yn Eritrea, Byw yn Ne-ddwyrain Asia, Byw dan y ddaear (Matmata), India: y ddwy ochr* fod yn arbennig o fuddiol. Defnyddiwch y testun a'r lluniau yn fan cychwyn ar gyfer trafodaeth. Sut bydden nhw'n hoffi byw yn yr ardaloedd hyn? Ym mha ffyrdd mae bywydau'r bobl sy'n byw yn y mannau hyn yn wahanol i'w bywydau nhw? Hoffen nhw ymweld â'r mannau hyn? Pam Gall hyn gael ei ddilyn gan waith ysgrifenedig, e.e. gall y disgyblion ysgrifennu hysbyseb 'tŷ ar werth' i rai o'r cartrefi hyn neu baratoi taflen wyliau i geisio denu ymwelwyr i leoedd fel Gwlad Thai, Matmata ac India.

### Pobl ifanc sy'n byw ac yn gweithio mewn gwledydd eraill (Cyfnod Allweddol 4)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Ansawdd Bywyd, Gwerthoedd a Chanfyddiadau

Darllenwch a thrafodwch *Strydoedd Delhi* (*Ifanc: tasg ddewisol Cymraeg Ail Iaith 1998)*. Gofynnwch i'r disgyblion gymharu bywydau Nia a Shiva a meddwl sut bydd y stori'n datblygu. Gall hyn gael ei wneud ar lafar neu ar bapur.
Darllenwch a thrafodwch gerdd Einir Jones *Teg? (Poeth, tudalen 106)*. Pa deimladau sy'n cael eu gollwng yn rhydd yn y gerdd? Beth yw arwyddocâd y rhifau 35 a 70? Cymharwch fywydau a gwerthoedd y ddau sy'n siarad yn y gerdd. Gofynnwch i'r disgyblion ddychmygu cyfarfod rhwng arddegyn o Gymru ac arddegyn o Indonesia mewn tasg chwarae rôl.

### Cyfryngau Cymru (UG/Safon Uwch)

### Cysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang: Amrywiol

Mae angen i'r ymgeiswyr allu trafod newyddiaduraeth a darlledu yng Nghymru yn arholiad llafar Uned 5. O'r cyfryngau Cymreig, gall yr athrawon ddewis ystod o bynciau sy'n cynnig cyfleoedd i ymwneud â materion byd-eang, e.e. rhaglen ddogfen deledu megis *Taro Naw* a'r *Byd ar Bedwar* ac erthyglau priodol o bapurau newydd a chylchgronau Cymraeg fel *Y Cymro* a *Golwg.*

# Cyrsiau a Chymwysterau eraill

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…
## Cymhwyster Bagloriaeth Cymru

Mae Bagloriaeth Cymru ac yn enwedig y modiwlau *Cymru, Ewrop a'r Byd,* ac *Addysg Bersonol a Chymdeithasol* yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i'r myfyrwyr ennill dealltwriaeth ehangach o faterion cyfoes a Chysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang.

**Cymru, Ewrop a'r Byd**
Bydd y gydran hon yn annog ymgeiswyr i fod yn ymwybodol o'r gydberthynas rhwng Cymru a'r Byd drwy gymharu a chyferbynnu profiadau pobl yng Nghymru â phrofiadau pobl mewn gwledydd eraill

**RHAN A**:

Elfen I – Materion Gwleidyddol:

- (Mater allweddol) Sut gall gwledydd, un ai gyda'i gilydd neu'n unigol, weithio tuag at wella cydweithrediad a dealltwriaeth ryngwladol.
  - Pwysigrwydd gwaith asiantaethau cymorth dyngarol: e.e. mynd ati i ddysgu am gyrff fel Oxfam, Amnest Rhyngwladol, Achub y Plant etc.
  - Ym mha ffyrdd y mae gwledydd yn ceisio datrys y gwahaniaethau rhyngddynt: e.e. oes modd cau'r bwlch rhwng y cyfoethog a'r tlawd? - Adolygu 5ed Gynhadledd Gweinidogion y WTO yn Cancún.

Elfen II – Sialensiau cymdeithasol ac ymatebion:

- (Mater allweddol) Y materion cymdeithasol y mae pobl yn eu hwynebu yn eu bywydau bob dydd ac ymatebion iddynt.
  - Ym mha ffyrdd y mae gwahanol grwpiau cenedlaethol ac ethnig wedi cyfrannu yn y gorffennol ac y maent yn cyfrannu i gymdeithas heddiw: e.e. cyfraniad pobl Romani (Sipsiwn) at y gymdeithas a'r diwylliant yng Nghymru ac mewn gwlad yn nwyrain Ewrop.
  - yr hyn y mae'r gorffennol wedi'i adael i ni a sut y gall effeithio ar gymunedau heddiw: e.e. edrych ar effaith yr Ymerodraeth Brydeinig ar ddatblygiad Cymru a gwledydd a rhanbarthau eraill; Cloriannu'r gosodiad mai ehangu gwladychol ac ecsbloetio yw'r prif esboniad a'r prif reswm dros anghydraddoldeb economaidd.

Elfen III - Effaith Newid Economaidd a Thechnolegol:

- (Mater allweddol) Y sialensiau a achosir gan newid economaidd a thechnolegol cyflym:
  - Cymharu natur a nodweddion datblygu economaidd yng Nghymru … a'r byd ehangach: e.e. cymharu a chyferbynnu economi a datblygiad technoleg yng Nghymru a gwledydd eraill, e.e. Nigeria a Japan – sut mae esbonio a chyfiawnhau'r gwahaniaethau hyn, beth yw'r rhwystrau a'r cyfleoedd i'r gwledydd hyn?

Elfen IV – Etifeddiaeth a safbwyntiau diwylliannol:

- (Mater allweddol) Ym mha ffyrdd y gallai dylanwadau amlddiwylliannol effeithio ar fywydau pobl:
  - E.e. dadansoddi ystod o ddelweddau (radio, teledu, y wasg, y rhyngrwyd) ac adolygu agweddau pobl at ddylanwadau diwylliannol Eingl-Americanaidd, e.e. Cymru, Japan a gwledydd Arabaidd - beth yw'r gwahaniaethau a pham?

**Ymchwiliad Unigol**:
E.e. gall yr ymgeiswyr ddewis pwnc a fyddai'n berthnasol i ddinasyddiaeth fyd-eang, e.e. cymharu a chyferbynnu sylw'r cyfryngau/y wasg yng Nghymru a Seland Newydd i ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

**Modiwl Iaith:**
Gall y disgyblion ddefnyddio a datblygu eu medrau iaith drwy ddefnyddio adnoddau a chynnal ymchwil yn yr iaith darged ynghylch materion dinasyddiaeth fyd-eang.

**Addysg Bersonol a Chymdeithasol:**
Bydd Addysg Bersonol a Chymdeithasol yn galluogi'r disgyblion i fod yn fwy gwybodus, hyderus a medrus fel eu bod yn gallu chwarae rhan weithgar a chyfrifol mewn cymdeithas

Elfen III – Hawliau a chyfrifoldebau bod yn ddinesydd gweithgar:

- (Mater allweddol) Gwybod eich hawliau cyfreithiol a dynol, yn cynnwys cyfle cyfartal.
  - E.e. beth yw'r prif Hawliau Cyfreithiol o dan gyfraith y DU a'r UE; neu ddatblygiad peiriannu genynnol – trafodaeth a dadl; neu Ffoaduriaid a Cheiswyr Lloches – beth ydw i'n ei wybod ac i ba raddau mae delwedd y cyfryngau o'r sefyllfa yn dylanwadu arna i?

Elfen IV – Deall materion datblygu ac addysg o blaid datblygu cynaliadwy:

- (Mater allweddol) Cyfrifoldebau'r unigolion wrth hybu Dinasyddiaeth Fyd-eang.
  - E.e. gallai'r ymgeiswyr drefnu digwyddiad/ffair pryd y byddent yn hybu dinasyddiaeth fyd-eang i'w cymunedau a/neu eu cyd-ddisgyblion yn yr ysgol.

## Addysg ar gyfer Dinasyddiaeth Fyd-eang mewn…

## Datblygu'r Byd (Lefel UG)
## Manyleb CBAC 2005

Mae gan ddisgyblion sy'n dilyn y pwnc 'Datblygu'r Byd' gyfle i ehangu eu dealltwriaeth a'u hymwybyddiaeth o gyd-ddibyniaeth systemau byd-eang, prosesau naturiol a datblygiad dynol.

Mae'r fanyleb yn anelu:
"at hybu dealltwriaeth o faterion byd-eang a datblygu golwg 'un-byd' ac mae'n ymwneud i raddau helaeth â thwf economaidd, datblygu cynaliadwy a bodloni anghenion sylfaenol, ynghyd â gwella tegwch a chyfiawnder cymdeithasol"

Wrth astudio'r tair Uned, mae gan yr ymgeiswyr gyfle eang i uniaethu â Chysyniadau Allweddol Dinasyddiaeth Fyd-eang:

**Uned 1: Datblygu, Pobl a'r Amgylchedd**

- e.e. defnyddio cysyniad 'datblygu' i edrych ar sut mae gwahanol safbwyntiau'n effeithio ac yn dylanwadu ar ddiffiniadau (cymharu canfyddiadau o wahanol wledydd a chymdeithasau)
- (Syniadau Allweddol) Anghenion a Hawliau Dynol sylfaenol, e.e. edrych ar amrywiol ddeunyddiau ar 'gaethwasanaeth ymhlith plant yn India', 'plant y stryd yn Ninas Mecsico' a 'Favela - bywyd yn Rio de Janeiro' a'u cymharu â'r sefyllfa yng Nghymru - beth yw'r gwahaniaethau ac a oes unrhyw debygrwydd? A pham?
- (Syniadau Allweddol) Amgylchedd Cynaliadwy ac anghenion dynol, e.e. dylanwad yr effaith tŷ gwydr a chynhesu byd-eang ar bawb - sut gallwn ni fel unigolion wneud newid?

**Uned 2: Tlodi ac anghydraddoldeb:**

- e.e. Edrych ar sut mae'r ymadroddion tlodi, gwahaniaethu, anghyfiawnder, ecsbloetio, hawliau dynol yn cael eu deall a'u diffinio ar y lefel leol, genedlaethol a byd-eang, a sut maen nhw'n newid dros amser a lle.

**Uned 3: Patrymau Cymorth, Masnach a Globaleiddio:**

- e.e. edrych ar y lefel leol/genedlaethol ar sut mae gwahanol gwmnïau a chyrff yn mynd i'r afael â chwestiwn Masnach Deg: y Co-op, Marks & Spencer, Tesco, Oxfam, CAFOD etc.
- e.e. Cymorth a chodi arian – beth yw'r berthynas rhwng y ddau? Cloriannwch a ddylai codi arian a chasglu arian fod yn ddechrau neu yn ddiwedd ar ein hymwneud ni â'r broses.
- e.e. Hanes ac etifeddiaeth y cyfnod gwladychol - i ba raddau mae hyn yn gysylltiedig â thwf economaidd a datblygu technolegol?

## Cael Cymorth - Rhaglen Hwyluso Cymorth Effeithiol

Mae'r Fenter hon ar hyd a lled y DU gan yr Adran Datblygu Rhyngwladol (DFID) yn gyfle cyffrous i sefydlu mecanweithiau a fydd yn gymorth i gyflwyno **addysg ar gyfer datblygu cynaliadwy** a **dinasyddiaeth fyd-eang (ADCDF)** yng Nghymru. Caiff y fenter ei hariannu gan y DFID a Llywodraeth Cynulliad Cymru (LlCC).

Amcanion y fenter yw:

- codi ymwybyddiaeth o, a gwella mynediad at, adnoddau a gwasanaethau;
- ysgogi datblygiadau arloesol ar lefel leol wrth roi'r cymorth hwn;
- hwyluso'r broses o rannu gwybodaeth ac arferion gorau (www.adcdf-cymru.org.uk).

Yng Nghymru, Cyfanfyd (Cymdeithas Addysg Datblygu Cymru) sy'n rheoli'r fenter. Mae'n rhan o waith Panel Ymgynghorol LlCC ar ADCDF ac mae'n cyfrannu at y cynllun gweithredu ar gyfer ADCDF.

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch â:
Cyfanfyd Ffôn: 02920 668999 info@cyfanfyd.org.uk

## Cydnabyddiaeth

Cynorthwywyd y gwaith o baratoi'r ddogfen hon yn helaeth trwy ddiddordeb ac ymdrechion nifer o unigolion a sefydliadau. Hoffem ddiolch yn benodol i'r canlynol:

Staff yr Awdurdod Cymwysterau, Cwricwlwm ac Asesu Cymru (ACCAC)

Colette Pitts

Catherine Hester - Oxfam

Liz Thomas – Cyfanfyd

Jonathan Brentnall - RE advisor

Sheila Bennell- Bangor University

Claire Fowler - RSPB

Cathays High School

Ysgol David Hughes

Ysgol Uwchradd Y Drenewydd

Cyfarthfa High School